



Dewisiadau eraill  
yn lle aelodaeth: modelau posibl  
i'r Deyrnas Unedig y tu allan  
i'r Undeb Ewropeaidd



# Dewisiadau eraill yn lle aelodaeth: modelau posibl i'r Deyrnas Unedig y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd

Cyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag adran 7 o Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015

Y papur hwn yw'r rhan gyntaf o'r adroddiad y bydd y Llywodraeth yn ei gyhoeddi i gwrdd â'r gofyniad yn adran 7(1) o Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015. Bydd ail ran yr adroddiad hwn, a fydd yn darparu gwybodaeth am yr hawliau a rhwymedigaethau sy'n codi o ganlyniad i aelodaeth y DU o'r UE, yn cael ei chyhoeddi ar ddyddiad diweddarach.

Mawrth 2016



© Hawlfraint y Goron 2016

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodwyd fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i [nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3](http://nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3) neu ysgrifennwch i Information Policy Team, The National Archives, Kew, Llundain TW9 4DU, neu anfon neges e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk).

Lle'r ydym wedi nodi bod gwybodaeth o dan hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint cysylltiedig.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn [www.gov.uk/government/publications](http://www.gov.uk/government/publications)

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom ni yn Europe Directorate, Foreign and Commonwealth Office, Llundain SW1A 2AH

ISBN Argraffu 9781474129435

ISBN y We 9781474129442


ID 25021603 03/16 54539 19585

Wedi'i argraffu ar bapur y mae o leiaf 75% ohono'n ffeibrau a ailgylchwyd

Argraffwyd yn y DU gan Williams Lea Group ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

# Cynnwys

|                                             |    |
|---------------------------------------------|----|
| <b>Pennod 1 – crynodeb gweithredol</b>      | 5  |
| <b>Pennod 2 – cyflwyniad</b>                | 7  |
| <b>Pennod 3 – y dewisiadau eraill</b>       | 13 |
| A. Model Norwy                              | 16 |
| B. Cytundebau dwyochrog wedi'u negodi       | 26 |
| C. Model Sefydliad Masnach y Byd yn unig    | 37 |
| <b>Pennod 4 – casgliad</b>                  | 43 |
| <b>Atodiad – cysylltiadau masnach yr UE</b> | 47 |
| <b>Rhestr o dermau allweddol</b>            | 49 |



# Pennod 1 – crynodeb gweithredol

**1.1** Mae'r papur hwn yn edrych ar y modelau posibl ar gyfer perthynas y DU â'r Undeb Ewropeaidd, pe byddai pleidlais o blaid gadael. Mae'n darparu enghreifftiau o wledydd nad ydynt yn aelodau o'r UE ond sydd wedi gwneud trefniadau eraill ag ef – yn benodol, Norwy, y Swistir, Canada a Thwrci – ac yn disgrifio'r enghreifftiau hynny. Hefyd mae'n edrych ar berthynas bosibl wedi'i seilio ar aelodaeth o Sefydliad Masnach y Byd yn unig.

**1.2** Mae'r modelau hyn yn cynnig gwahanol fathau o gydbwysedd yn nhermau manteision, rhwymedigaethau a dylanwad. Pe byddai pleidlais o blaid gadael o ganlyniad i'r refferendwm, byddem yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd gorau posibl o fantais i'r DU. Fodd bynnag, pa ddewis bynnag y byddai'r DU yn ei ffafrio, mae'r cynseiliau'n dangos yn glir y byddai angen i ni gyfaddawdu ar nifer o faterion:

- yn gyfnewid am fynediad llawn i Farchnad Sengl yr UE ar gyfer masnach rydd i brif ddiwydiannau'r DU, byddai'n rhaid i ni dderbyn bod pobl yn cael symud yn rhydd;
- byddai mynediad i'r Farchnad Sengl yn ei gwneud yn ofynnol i ni weithredu ei rheolau. Ond o fod y tu allan, ni fyddai'r DU bellach yn cael pleidleisio ar y rheolau hyn. Ac nid oes sicrwydd y gallem ail-greu'n llawn ein cydweithrediad presennol mewn meysydd eraill, fel gweithredu ar draws ffiniau yn erbyn troseddwyd;
- byddai mynediad llawn i'r Farchnad Sengl yn ei gwneud yn ofynnol i ni barhau i gyfrannu i raglenni a chyllideb yr UE;
- ni fyddai trefniant wedi'i seilio ar Gytundeb Masnach Rydd yn cynnwys yr un lefel o rwymedigaethau, ond byddai'n golygu bod llai o fynediad gan gwmnïau'r DU i'r Farchnad Sengl mewn sectorau allweddol fel gwasanaethau (bron 80 y cant o economi'r DU)<sup>1</sup>, a byddent yn wynebu costau uwch;
- byddem yn colli ein mynediad ffafraethol i 53 o farchnadoedd<sup>2</sup> y tu allan i'r UE y mae'r UE wedi gwneud Cytundebau Masnach Rydd â nhw. Byddai'n cymryd blynyddoedd i ailnegodi hyn, heb sicrwydd y byddai'r DU yn cael telerau cystal â'r rheini sydd gennym heddiw;
- er mwyn cadw hawliau dinasyddion y DU sy'n byw, yn gweithio ac yn teithio yng ngwledydd eraill yr UE, mae bron yn sicr y byddem yn gorfod derbyn trefniadau cyfatebol ar gyfer eu dinasyddion nhw yn y DU.

<sup>1</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, UK GDP, low level aggregates; Second Estimate of 2015 GDP

<sup>2</sup> Gweler y map a rhestr o Gytundebau Masnach Rydd yn yr Atodiad.

**1.3** Byddai'n cymryd cymaint â degawd neu fwy i negodi cytundeb newydd â'r UE ac i ddod i delerau masnachu newydd â gwledydd eraill yn lle'r rhai presennol. Yn ogystal â hyn, byddai pob un o'r modelau eraill yn cynnwys rhwymedigaethau a chostau sylweddol i'r DU:

- mae model Norwy yn rhoi mynediad sylweddol i'r Farchnad Sengl ond nid ym meysydd amaethyddiaeth a physgodfeydd. Nid yw'n rhoi'r gallu i fanteisio ar gytundebau masnachu y mae'r UE wedi cytuno arnynt â gwledydd y tu allan i'r UE ac mae'n parhau'n ofynnol bod nwyddau'n cael eu harchwilio mewn tollfeydd pan fyddant yn croesi'r ffin i'r UE. Mae hefyd yn golygu cyfrannu'n sylweddol at wariant yr UE, derbyn bod pobl yn cael symud yn rhydd, ac ysgwyddo rheolau'r UE heb gael pleidleisio arnynt;
- mae gwahanol fathau o gytundebau dwyochrog, ond nid yw'r un ohonynt yn rhoi mynediad llawn ar gyfer gwasanaethau, sef bron 80 y cant o economi'r DU. Mae lefelau uwch o fynediad i'r Farchnad Sengl yn golygu gweithredu rheolau'r UE mewn deddfwriaeth ddomestig, derbyn bod pobl yn cael symud yn rhydd (fel yn achos y Swistir), ac mewn rhai achosion cyfrannu at wariant yr UE. Mae'r Cytundeb Masnach rhwng yr UE a Chanada yn rhoi llai o fynediad i'r Farchnad Sengl, ar gyfer gwasanaethau ac amaethyddiaeth er enghraifft;
- pe na byddem yn gallu dod i gytundeb â'r UE ar drefniant newydd, byddai ein trefniadau masnachu'n mynd yn ôl at reolau Sefydliad Masnach y Byd. Hyn fyddai'r toriad mwyaf llwyr oddi wrth yr UE. Nid yw'n golygu derbyn bod pobl yn cael symud yn rhydd, cyfrannu i gyllideb yr UE na gweithredu rheolau'r UE. Ond fe fyddai'n achosi sioc economaidd fawr i'r DU. O dan reolau Sefydliad Masnach y Byd, ni fyddai dewis gan yr UE, a'r holl wledydd yr ydym wedi gwneud trefniadau masnachu â nhw, heblaw gosod tariffau Sefydliad Masnach y Byd ar allforion o'r DU – gan roi ein cwmnïau o dan anfantais gystadleuol. Yn y cyfamser, byddai'r DU yn wynebu dewis anodd rhwng un ai cynyddu tariffau ar fewnforion o'r UE neu ostwng tariffau ar fewnforion o'r holl wledydd eraill. Byddai cynyddu tariffau'n cael effeithiau canlyniadol ar swyddi ac incwm yn y DU, a hefyd ar allu'r DU i ddenu buddsoddiadau o wledydd tramor. Byddai gostwng tariffau'n amddifadu'r DU o refeniw, ac yn tanseilio ein gallu i negodi telerau masnachu yn y dyfodol.

**1.4** O dan unrhyw un o'r dewisiadau eraill hyn, byddai cost heblaw un economaidd hefyd, o ran diogelwch a chryfder y DU. Er enghraifft, mae'r Warant Arestio Ewropeaidd a System Wybodaeth Schengen yn caniatáu i asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn y DU gael gwybodaeth oddi wrth eu cymheiriaid yn yr UE a gweithredu ar y wybodaeth honno. Hyd yn oed pe byddem yn llwyddo dros amser i negodi cytundebau dwyochrog yn lle'r rhain, nid oes sicrwydd y gallem gael trefniadau yn eu lle i roi'r un mynediad at fesurau'r UE ar gyfer cydweithredu rhwng heddluoedd ac asiantaethau diogelwch. Ac ni fyddem bellach yn gallu defnyddio'r UE, fel yr ydym nawr, yn un o'r prif ffyrdd, fel ein haelodaeth o'r Cenhedloedd Unedig neu sefydliadau rhyngwladol eraill, i ymestyn dylanwad y DU yn y byd, neu i ddefnyddio pwysau economaidd yr UE i osod sancsiynau, fel y rheini y mae wedi'u gosod ar Rwsia ac Iran.

**1.5** Mae angen i ni asesu'r manteision posibl mewn unrhyw fodel arall ochr yn ochr â'r hyn y mae aelodaeth y DU o'r UE yn ei roi i ni nawr. Mae Llywodraeth y DU yn credu nad oes yr un model presennol y tu allan i'r UE sy'n dod yn agos at ddarparu'r un cydbwysedd o fanteision a dylanwad a gawn ni o statws presennol y DU o fewn yr UE.



## Pennod 2 – cyflwyniad

2.1 Mae'r papur hwn yn edrych ar nifer o ddewisiadau eraill posibl ar gyfer perthynas y DU â'r UE, pe byddai pleidlais o blaid gadael. Mae'n amlinellu prif nodweddion a goblygiadau pob un o'r prif fodelau presennol ar gyfer y berthynas, ac yn asesu eu haddasrwydd ar gyfer y DU.

2.2 Y papur hwn yw rhan gyntaf yr adroddiad y bydd y Llywodraeth yn ei gyhoeddi i gwrdd â'r gofyniad yn adran 7(1) o Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd 2015. Bydd ail ran yr adroddiad hwn, a fydd yn darparu gwybodaeth am yr hawliau a rhwymedigaethau sy'n codi o ganlyniad i aelodaeth y DU o'r UE, yn cael ei chyhoeddi ar ddyddiad diweddarach. Bydd dwy ran yr adroddiad ar gael i'w darllen gyda'i gilydd ar wefan GOV.UK.

2.3 Mae'r Papur Gwyn "The process for withdrawing from the European Union" sydd gyda'r papur hwn yn disgrifio'r broses y mae angen ei dilyn i adael yr UE<sup>3</sup>. Fel y mae'r papur yn egluro, byddai hyn ymhell o fod yn syml. Nid yw'r ddarpariaeth gyfreithiol ar gyfer ymadael (Erthygl 50 o'r Cytuniad ar Undeb Ewropeaidd) erioed wedi cael ei defnyddio. Mae meysydd pwysig lle mae'r sefyllfa'n aneglur, gan gynnwys a ddylai'r broses gyfreithiol i greu perthynas newydd fod ar wahân i'r broses o dynnu'n ôl o aelodaeth.

2.4 Byddai'r ansicrwydd cyfreithiol hwn yn gallu effeithio ar negodiadau ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Byddai rhai o'r modelau sydd wedi'u disgrifio yn y papur hwn, fel cytundeb dwyochrog cynhwysfawr ar fasnach a chydweithredu rhwng y DU a'r UE, yn gallu galw am eu cymeradwyo'n unfrydol gan y 27 Aelod-wladwriaeth sy'n aros yn yr UE. Byddai hyn yn creu dynameg fwy anodd yn y negodi, lle gallai unrhyw un o'r 27 roi fetó. Pe byddai'r DU yn ceisio cadw aelodaeth o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) mewn modd tebyg i fodel Norwy, byddai angen i holl aelodau'r AEE gytuno hefyd, gan gynnwys Norwy, Liechtenstein a Gwlad yr Iâ.

2.5 Byddai'r DU yn wynebu dewisiadau anodd. Fel gwlad, byddai angen i ni bwyso a mesur gwerth ein rhyddid i weithredu ar ein pen ein hunain ochr yn ochr â'r manteision o weithredu drwy gydgyssylltu â'r UE. Mae hyn yn codi tri chwestiwn allweddol:

- y mynediad parhaus yr oeddem am ei gadw i'r Farchnad Sengl ac at gydweithredu â'r UE ar faterion yn amrywio o blismona i bolisi tramor;
- y rhwymedigaethau sy'n ofynnol i gael mynediad o'r fath, a fyddai bron yn sicr o gynnwys yr angen i fabwysiadu rheolau'r UE, gwneud cyfraniadau ariannol, a derbyn hawl pobl i symud yn rhydd;
- y dylanwad yr oeddem am ei gael ar benderfyniadau a wneir yn yr UE, gan gynnwys dylanwad ar reolau'r Farchnad Sengl.

<sup>3</sup> 29 Chwefror 2016. Ar gael yn: [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/504216/The\\_process\\_for\\_withdrawing\\_from\\_the\\_EU\\_print\\_ready.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/504216/The_process_for_withdrawing_from_the_EU_print_ready.pdf)

**2.6** Mae'r ffactorau hyn wedi'u cysylltu â'i gilydd. Ar gyfer yr holl ddewisiadau eraill sydd wedi'u disgrifio yn y papur hwn, mae mynediad yn dod â rhwymedigaethau a chostau yn ei sgîl. Ac mae'r gallu i gael y budd mwyaf o fynediad o unrhyw fath yn dibynnu ar y gallu i ddylanwadu ar y rheolau.

## **Y sefyllfa bresennol: statws arbennig y DU yn yr UE**

**2.7** Mae gan y DU statws arbennig yn yr UE nawr, fel gwlad sofran yn gweithredu mewn partneriaeth ag Aelod-wladwriaethau eraill lle mae'r Llywodraeth yn credu bod hynny er budd i ni, ond bod trefniadau arbennig i'w dilyn os yw'r Llywodraeth yn credu fel arall. Mae gennym hawliau pleidleisio llawn a phob hawl i ddatgan ein barn am reolau'r Farchnad Sengl. O ganlyniad i'n statws arbennig rydym yn cael:

- rôl flaenllaw o fewn yr UE;
- ad-daliad blynyddol parhaol ar ein taliadau i gyllideb yr UE sy'n lleihau ein cyfraniad net;
- mynediad i'r Farchnad Sengl fwyaf yn y byd, gyda rhan flaenllaw mewn penderfynu ar reolau'r farchnad honno, fel ei bod yn adlewyrchu'r hyn sy'n rhoi'r budd mwyaf i fusnesau a defnyddwyr y DU, gan greu swyddi a rhoi mwy o ddiogelwch ariannol i deuluoedd y DU;
- cydweithredu ar faterion diogelwch rhyngwladol, gan helpu i fynd i'r afael â throseddau a therfysgaeth ar draws ffiniau i gadw ein gwlad yn ddiogel, gan gadw ein hawl gyfreithiol i beidio â chymryd rhan ym mesurau'r UE nad ydynt o fudd i'r wlad hon;
- y gallu i ddinasyddion y DU fyw, gweithio a theithio'n rhydd ar draws yr UE, ond y pŵer i weithredu lle ceir camfanteisio ar ein systemau lles neu fewnfudo.

**2.8** Yn ogystal â hyn, o dan y setliad newydd y mae'r Prif Weinidog wedi'i sicrhau yn y cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd ym mis Chwefror ac sydd wedi'i egluro yn "The best of both worlds: the United Kingdom's special status in a reformed European Union"<sup>4</sup> byddwn yn cael:

- y gallu i gyfyngu mewn argyfwng ar hawl gweithwyr sydd newydd gyrraedd o wledydd eraill yr UE i dderbyn yr holl fudd-daliadau i rai sydd mewn gwaith;
- eithriad penodol i'r DU rhag 'undeb agosach fyth';
- mwy o bŵer i'n Senedd ni;
- perthynas decach a mwy tryloyw rhwng y bunt a'r ewro, gan roi mwy o ddiogelwch ariannol i'n busnesau yn y dyfodol;
- ymrwymiad gan yr UE i wneud diwygiadau i hybu cystadleurwydd yr UE drwy leihau beichiau rheoleiddio ar fusnesau; ymestyn y Farchnad Sengl yn enwedig mewn meysydd allweddol fel gwasanaethau, ynni a digidol; a Chytundebau Masnach Rydd ag economïau mwyaf dynamig y byd.

**2.9** Mae'r DU wedi optio allan hefyd o nifer o feysydd allweddol ar gyfer cydweithredu yn yr UE. Rydym wedi optio allan yn barhaol o'r ewro, gan gynnwys yr Undeb Bancio, ac o ardal ddi-ffiniau Schengen. Gallwn optio i mewn i fesurau penodol sy'n ymwneud â Chyfiawnder a Materion Cartref os byddwn yn dewis. Mae hyn yn golygu bod y DU yn gallu dewis cymryd rhan mewn camau gweithredu ar lefel yr UE mewn cysylltiad â lloches, mewnffudo o'r tu allan i'r UE, a chydweithredu rhwng heddluoedd a barnwriaethau; ond nid yw'n gorfod gwneud hynny.

<sup>4</sup> 22 Chwefror 2016. Ar gael yn: [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/502291/54284\\_EU\\_Series\\_No1\\_Web\\_Accessible.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/502291/54284_EU_Series_No1_Web_Accessible.pdf)

**2.10** Nid oes yr un wlad arall sydd â'r un statws arbennig yn yr UE. Yn ystod y pedwar degawd y bu'n aelod o'r UE, mae'r DU wedi sicrhau'r gwahanol ddarpariaethau hyn ar gyfer optio allan, esemptio, ad-dalu a gwarantu. Mae gennym hawliau llawn ar gyfer pleidleisio a rhoi feto. Rydym yn cymryd rhan yn y meysydd hynny yng ngweithgarwch yr UE sy'n gyson â'n buddiant cenedlaethol (y Farchnad Sengl a chydweithredu ar bolisi tramor, er enghraifft), ac yn aros y tu allan i'r rheini nad ydynt o fudd i ni (fel yr ewro ac ardal ddi-ffiniau Schengen). Mae'r setliad newydd wedi cadarnhau ac ymestyn y statws arbennig hwn. Mae'r set hon o gytundebau, y bu'n rhaid ymladd yn galed i'w hennill, yn rhoi cyfuniad unigryw o fynediad a dylanwad i'r DU gyda rhwymedigaethau sy'n cwrdd â'n hanghenion ni yn hytrach na normau'r UE. Nid oes yr un wlad arall sydd wedi cyflawni hyn. Mae'r set unigryw hon o drefniadau'n sail i berfformiad economaidd hynod y DU o ran hybu twf a chreu swyddi. Byddai'n rhaid i unrhyw fodel arall ar gyfer y DU fod yn un sy'n cynnig cydbwysedd sydd gystal â hyn o leiaf os yw i'n helpu i barhau â'n llwyddiant.

### Blwch 1: Beth yw'r Farchnad Sengl?

Mae'r Farchnad Sengl, a grëwyd yn y 1980au, yn golygu mai'r Undeb Ewropeaidd yw'r parth economaidd mwyaf yn y byd. Gweledigaeth y DU oedd yr ysbrydoliaeth iddi ac fe'i crëwyd drwy arweiniad Llywodraeth Margaret Thatcher a chymheiriaid y DU yn Ewrop. Nid oes yr un economi mewn unman arall yn y byd sy'n debyg o ran ei maint, ei natur agored neu'r mynediad y mae'n ei roi i fusnesau sydd am fasnachu a buddsoddi ar draws ffiniau cenedlaethol.

Mae'r Farchnad Sengl yn gweithio drwy drin Aelod-wladwriaethau'r UE fel un ardal economaidd.<sup>5</sup> Yn benodol, mae'n hyrwyddo symudiad rhydd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau o fewn yr UE mewn tair ffordd allweddol, drwy:

- ddileu tollau mewnforydd ar nwyddau, a elwir yn dariffau, a dileu cwtôtâu;
- creu ardal dollau sengl ar gyfer symud nwyddau heb y fiwrocratiaeth a gwaith papur sydd eu hangen ar gyfer archwiliadau mewn tollfeydd;
- datblygu chwarae teg drwy ddileu rhwystrau eraill rhag masnach rydd fel gwahaniaethau rhwng rheoliadau neu fanylebau technegol. Mae hyn yn agor marchnadoedd ar gyfer nwyddau a gwasanaethau, gan sicrhau bod cwmnïau'r DU yn cael eu trin mewn ffordd deg ac anwahaniaethol.

Mae'r UE yn Undeb Tollau, sydd heb rwystrau tariff rhwng Aelod-wladwriaethau, ac sy'n gosod tariff allanol cyffredin ar fewnforion o wledydd y tu allan. Cysoni'r rhain yw un o swyddogaethau hanfodol pob Undeb Tollau ac mae angen gwneud hyn i sicrhau bod mewnforyddion i holl wledydd yr UE yn cael eu trin yn yr un ffordd. Oherwydd hyn mae'r UE yn negodi ac yn cytuno ar y cyd ar Gytundebau Masnach Rydd â gwledydd eraill. Hyd yn hyn mae'r UE wedi gwneud 36 cytundeb o'r fath sy'n cwmpasu 53 o farchnadoedd.<sup>6</sup> Fel Aelod-wladwriaeth, nid yw'r DU yn gwneud cytundebau masnach ar wahân â phob un o'r gwledydd eraill hyn, ond yn cymryd rhan yn rhai'r UE. Mae manteision ynglŷn â hyn. Mae'n golygu bod y DU yn rhan o ardal fasnachu ehangach, fwy pwerus a bloc economaidd cryfach wrth negodi.

Mae pob un o'r elfennau hyn wedi'i disgrifio'n fwy manwl isod. Gyda'i gilydd, maent yn golygu bod busnesau'r DU yn gallu gwerthu eu nwyddau a gwasanaethau'n ddirwysr i farchnad o 500 miliwn o bobl<sup>7</sup> ar garreg ein drws heb orfod cydymffurfio â 28 o setiau

<sup>5</sup> Gweler y diffiniad o'r farchnad fewnol yn Erthygl 26(2) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

<sup>6</sup> Mae'r cytundebau hyn yn rhoi mynediad hefyd i economïau saith gwlad arall yn Undeb Tollau'r UE a'r AEE. Gweler y rhestr lawn yn yr Atodiad.

<sup>7</sup> Data poblogaeth Eurostat.

o reolau a rheoliadau gwahanol. Felly mae llai o wastraff ar amser a chostau. Yn ogystal â hyn, mae'r gystadleuaeth ychwanegol yn gwella ansawdd ac yn gostwng prisiau i ddefnyddwyr. Amcangyfrifwyd bod CMC yr UE yn fwy na 2 y cant yn uwch nag y byddai pe na byddai'r Farchnad Sengl wedi'i lansio ym 1993 – gan ychwanegu mwy na £200 biliwn y flwyddyn at economi'r UE ar sail prisiau heddiw.<sup>8</sup>

## Elfennau'r Farchnad Sengl

Mae masnachu nwyddau heb dariffau yn golygu na chodir tollau ar fasnach rhwng y DU ac Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Os yw busnes sydd y tu allan i'r UE am werthu ei nwyddau i'r UE, yna rhaid iddo dalu'r tollau mewnforio sy'n gymwys i gael gwneud hynny. Gwneir defnydd o dariffau mewnforio ar draws y byd. Drwy ddileu'r tariffau hyn o fewn yr UE, mae nwyddau'r DU yn gallu cystadlu'n deg â nwyddau o holl wledydd eraill yr UE, ac mae dewis llawer ehangach o nwyddau o wledydd eraill yr UE ar gael i'w prynu gan ddefnyddwyr y DU am brisiau rhatach.

Mae angen masnachu heb dariffau er mwyn i'r UE fod yn Undeb Tollau. Mewn Undeb Tollau gellir cludo nwyddau ar draws ffiniau cenedlaethol heb osod tariffau. O ganlyniad i hyn, mae masnach fewnol yn rhatach a llai biwrocrataidd am fod prosesau hir a drud wedi cael eu dileu. Gall yr archwiliadau hyn fod yn gymhleth, er enghraifft, os yw'n ofynnol i weithgynhyrchwyr ddweud o ble'r oeddent wedi cael y cydrannau sydd yn eu cynhyrchion, er mwyn sicrhau bod y cynnyrch cyfan yn cydymffurfio â'r holl bolisiâu gwahanol ar fasnach allanol. Mae'n bosibl y bydd injan sydd wedi'i gwneud yn y DU yn cynnwys partiau o bob rhan o'r byd. Oni bai am yr Undeb Tollau, gellid gosod tariffau ar rai o'r partiau hynny a byddai'n rhaid dangos o ble y daethant. Felly byddai angen archwilio a gwirio'r injan, a thalu tariffau, wrth iddi groesi'r ffin i un o Aelod-wladwriaethau eraill yr UE. Oherwydd y Farchnad Sengl, nid oes angen wynebu dim o'r costau a'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â hyn.

Yn ogystal â hyn, mae'r UE wedi datblygu amgylchedd teg ar gyfer masnach a buddsoddi drwy ddileu rhwystrau eraill rhag masnach rydd fel rheoliadau neu fanylebau technegol gwahanol ar gyfer nwyddau. Mae rhwystrau o'r fath yn creu costau cudd i fusnesau sydd am fasnachu ar draws ffiniau. Ceir llawer o wahanol rwystrau o'r fath gan gynnwys gofynion am ddogfennau ychwanegol, gofynion technegol gwahanol ar gyfer cynhyrchion penodol, gofynion o ran pacio a labelu, a nifer mawr o rai eraill. Mae lleihau'r rhwystrau hyn yn golygu datblygu gofynion technegol cyffredin ar draws yr UE, er enghraifft ar y lefelau o gemegion penodol a ganiateir mewn teganau plant, neu ar batrwm cronfeydd buddsoddi ar gyfer buddsoddwyr manwerthu, fel na fydd gofynion gwahanol yn creu rhwystrau diangen i fasnach. Drwy sicrhau cysondeb o'r fath, gall cwmnïau'r DU gyflenwi un cynnyrch i'w werthu ledled y Farchnad Sengl, yn hytrach na bod angen gwneud cynhyrchion gwahanol ar gyfer pob un o'r 28 o wledydd yn yr UE. Os ardystiwyd bod nwyddau'n gyson â'r gofynion ar gyfer eu gwerthu yn y DU, byddant yn cydymffurfio o ganlyniad â'r gofynion ar gyfer eu gwerthu ledled yr UE.

Mae'r un egwyddor yn gymwys i wasanaethau, sydd bron yn 80 y cant o economi'r DU. Y nod wrth geisio cael chwarae teg i wasanaethau yw agor marchnadoedd a sicrhau bod cwmni sydd wedi'i awdurdodi i weithredu mewn un Aelod-wladwriaeth yn gallu gweithredu ym mhob un o wledydd eraill yr UE. Mae'r Gyfarwydddeb Gwasanaethau, a gyflwynwyd yn 2006, wedi gwneud cynnydd ar agor y farchnad ac mae'n cwrmpasu gweithgareddau gan wasanaethau sy'n creu 46 y cant o CMC,<sup>9</sup> gan gynnwys sectorau fel manwerthu,

<sup>8</sup> Ar gael yn: [http://ec.europa.eu/internal\\_market/publications/docs/20years/achievements-web\\_en.pdf](http://ec.europa.eu/internal_market/publications/docs/20years/achievements-web_en.pdf). Y ffynhonnell wreiddiol mewn ewros.

<sup>9</sup> Ar gael yn: [http://ec.europa.eu/growth/single-market/services/index\\_en.htm](http://ec.europa.eu/growth/single-market/services/index_en.htm)


twristiaeth, adeiladu a gwasanaethau busnes. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd presennol yn bwriadu agor y farchnad hon ymhellach. Mae'r Farchnad Sengl wedi cyfrannu hefyd at ryddfrydoli sectorau gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio'n drwm fel teithio mewn awyrennau. Mae hyn wedi creu amgylchedd lle mae cwmnïau hedfan, yn enwedig gweithredwyr isel eu costau fel easyJet, wedi ffynnu, gan agor llwybrau newydd a lleihau costau teithio mewn awyrennau i ddefnyddwyr.

Un o gryfderau'r Farchnad Sengl ym maes gwasanaethau yw'r gydnabyddiaeth gyffredin i gymwysterau proffesiynol, sy'n golygu bod penseiri, meddygon neu filfeddygon y DU yn gallu gweithio ym mhob rhan o'r UE. Dyma un o elfennau'r Farchnad Sengl sy'n ei gwneud mor unigryw o ran ei chwmpas a'i chynnwys, ac mae'n bwysig i economi fel un y DU.

## Sut y byddai'r dewisiadau eraill yn lle aelodaeth o'r UE yn gallu effeithio ar y mynediad hwn i'r Farchnad Sengl?

Nid oes yr un o'r perthnasoedd eraill yn lle aelodaeth lawn o'r UE yn cynnig mynediad llawn i'r Farchnad Sengl. O dan rai o'r opsiynau, nid oes mynediad o gwbl at y prif elfennau – er enghraifft, nid yw Norwy'n aelod o'r Undeb Tollau, felly rhaid i gwmnïau Norwy ddilyn gweithdrefnau drud wrth fasnachu â'r UE. O dan rai eraill, mae sectorau allweddol wedi'u cau allan – er enghraifft, nid yw'r cytundeb â Chanada yn cynnig yr holl drefniadau ar gyfer masnachu teg i wasanaethau ariannol. Rydym yn edrych yn fwy manwl ar y materion hyn wrth ddadansoddi'r gwahanol ddewisiadau eraill isod.

## Blwch 2: Ewrop a'r Undeb Ewropeaidd<sup>10</sup>



<sup>10</sup> Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein a 28 Aelod-wladwriaeth yr UE yw aelodau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd. Mae'r Swistir, Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein yn aelodau o Gymdeithas Fasnach Rydd Ewrop (CFRE).





## Pennod 3 – y dewisiadau eraill

3.1 Mae patrwm y perthnasoedd presennol rhwng yr UE a thrydedd wledydd yn awgrymu bod tri phrif fodel ar gyfer perthynas:

- (a) Model Norwy. Mae Norwy o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)<sup>11</sup> ond nid yw o fewn yr UE. Dyma'r model y tu allan i'r UE sydd wedi'i integreiddio fwyaf â'r Farchnad Sengl. Mae'n golygu bod mynediad sylweddol gan Norwy i farchnad yr UE. Mae hefyd yn cymryd rhan mewn rhai mathau pwysig o gydweithredu nad ydynt yn ymwneud â'r economi, fel mesurau gwrthderfysgaeth, sydd wedi cael eu negodi ar wahân. Mae model Norwy yn cynnwys nifer o'r rhwymedigaethau allweddol o fod yn aelod o'r UE, ac mae Norwy'n cyfrannu i wariant yr UE. Mae'n ofynnol i Norwy ddilyn y rhan fwyaf o reolau'r Farchnad Sengl, er nad oes ganddi bleidlais neu fetu ar y ffordd o wneud y rheolau hynny. Rhaid iddi dderbyn bod pobl yn cael symud yn rhydd ac mae wedi dewis bod yn rhan o Ardal Schengen. Mae mwy o ymfudwyr o'r UE yn Norwy am bob pen o'r boblogaeth nag yn y DU.
- (b) Cytundeb dwyochrog wedi'i negodi. Mae gwahanol ffyrdd o wneud hyn. Fel arfer, bydd trefniadau o'r fath yn cynnig mynediad cyfyngedig i'r Farchnad Sengl, sy'n cynnwys rhyw gyfuniad o fasnachu heb dariffau, mynediad agored i'r farchnad gwasanaethau a gwarantau y bydd cwmnïau sy'n gweithredu yn y marchnadoedd hyn yn cael eu trin mewn ffordd deg ac anwahaniaethol. Ond anaml y byddant yn mynd yn bell o ran sefydlu Undeb Tollau neu fynd i'r afael â rhwystrau heblaw tariffau. Trefniadau'r Swistir â'r UE sy'n mynd bellaf o ran efelychu'r manteision o aelodaeth yn yr UE, ond maent yn cynnwys mwy o'r rhwymedigaethau, gan gynnwys derbyn bod pobl yn cael symud yn rhydd, cyfrannu'n sylweddol i wariant yr UE a chydymffurfio â'r rhan fwyaf o'r rheolau sy'n llywio'r Farchnad Sengl. Mae Cytundeb Masnach Rydd uwch, fel yr un a negodwyd rhwng yr UE a Chanada, yn rhoi llai o fynediad i'r Farchnad Sengl. Nid yw'r cytundeb rhwng yr UE a Chanada yn rhoi mynediad heb dariffau i'r holl nwyddau gwneuthuredig o Ganada, nid yw'n cynnwys nifer o sectorau gwasanaeth allweddol, fel y sector clyweledol a'r rhan fwyaf o drafnidiaeth awyr, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i Ganada dderbyn rheolau'r UE wrth allforio i'r UE, yn ogystal â chwotâu ar rai allforion amaethyddol. Cymerwyd saith mlynedd i'w negodi ar ôl y gwaith cwmpasu ac nid yw mewn grym eto.
- (c) Aelodaeth o Sefydliad Masnach y Byd. Mae'r DU, fel holl wledydd eraill yr UE, yn aelod o Sefydliad Masnach y Byd. Pe na byddai'r DU wedi cytuno ar berthynas newydd â'r UE erbyn yr amser yr oeddem yn gadael, yna byddem yn mynd yn ôl at ein haelodaeth gyffredin o Sefydliad Masnach y Byd fel sail ar gyfer masnachu – yn union fel y mae Brasil yn ei wneud wrth fasnachu â'r UE. O dan reolau Sefydliad Masnach y Byd, ni fyddai hyn yn cynnwys mynediad ffafraethol i'r Farchnad Sengl, nac i unrhyw un o'r 53 o

<sup>11</sup> Mae holl Aelod-wladwriaethau'r UE wedi llofnodi Cytuniad yr AEE. Y gwledydd y tu allan i'r UE sydd wedi'i llofnodi yw Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein.

farchnadoedd y mae'r UE wedi negodi Cytundebau Masnach Rydd â nhw. Byddai hefyd yn effeithio ar y pris y mae defnyddwyr y DU yn ei dalu am nwyddau a fewnforiwyd, os oedd tariffau cyfatebol wedi'u gosod ar fewnforion o wledydd yr UE. Ni fyddai'n cynnwys unrhyw gydgyssylltu na rhwymedigaethau mewn meysydd heblaw'r economi fel ymladd yn erbyn troseddu neu derfysgaeth.

3.2 Mae'r tabl isod yn dangos trosolwg ar y gwahanol berthnasoedd hyn. Mae disgrifiad manwl o bob un o'r rhain yng ngweddill y papur hwn.

Tabl Crynhoi – Modelau o berthnasoedd â'r Undeb Ewropeaidd

|                                          |           | Mynediad i'r Farchnad Sengl ar gyfer nwyddau a gwasanaethau |                       |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
|------------------------------------------|-----------|-------------------------------------------------------------|-----------------------|---------------------------------|--------------------------------------|----------------------|-------------------------------|-----------------------------|----------------------------|-------------------------|-----------------------|
|                                          |           | Pleidleisio ar gyfraith yr UE                               | Masnachu heb dariffau | Undeb Tollau a masnachu allanol | Triniaeth gyfartal ar gyfer busnesau | 'Undeb agosach fyth' | Cyfiawnder a Materion Cartref | Pobl yn cael symud yn rhydd | Ardal ddi-ffiniau Schengen | Cyfrannu i gyllid yr UE | Aelod o Ardal yr Ewro |
| Aelodaeth y DU o'r UE                    |           |                                                             |                       |                                 |                                      |                      |                               | a)                          |                            | b)                      |                       |
| Aelodaeth safonol o'r UE                 |           |                                                             |                       |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
| Norwy (y tu allan i'r UE, o fewn yr AEE) |           |                                                             |                       |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
| Cytundebau Dwyochrog                     | Y Swistir |                                                             |                       |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
|                                          | Canada    |                                                             |                       |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
|                                          | Twrci     |                                                             |                       |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
| Aelodaeth o Sefydliad Masnach y Byd      |           |                                                             | c)                    |                                 | d)                                   |                      |                               |                             |                            |                         |                       |

|                                           |  |
|-------------------------------------------|--|
| Eglurhad                                  |  |
| Llaw                                      |  |
| Rhannol / gwirfoddol / trefniant arbennig |  |
| Dim                                       |  |

- a) Pobl yn cael symud yn rhydd: mewn cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd yn Chwefror 2016 sicrhodd y Prif Weinidog setliad newydd a fydd yn galluogi'r DU i osod atalfa frys newydd i gyfyngu ar hawl gweithwyr sydd newydd gyrraedd o'r tu mewn i'r UE i gael yr holl fudd-daliadau i rai sydd mewn gwaith am hyd at bedair blynedd wedi iddynt ymuno â'n marchnad lafur ni . Bydd hyn mewn grym am saith mlynedd.
- b) Mae'r DU yn cael ad-daliad ar ei chyfraniadau i gyllideb yr UE.
- c) Ac eithrio lle mae'r UE wedi rhwymo tariffau ar ddim y cant mewn ymrwymïadau i Sefydliad Masnach y Byd.
- d) Ac eithrio lle mae'r UE wedi gwneud ymrwymïadau o dan Gytundeb Cyffredinol ar Fasnach a Gwasanaethau.

| Allwedd                                                                |                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
|------------------------------------------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pleidleisio ar gyfraith yr UE                                          | Y graddau y mae gwlad yn cael pleidleisio (a rhoi fetu mewn rhai meysydd) ar ddeddfwriaeth a phenderfyniadau polisi'r UE.                                                                                                                                                                   |
| Masnachu heb dariffau                                                  | Mynediad ffafraethol llawn, sy'n golygu bod yr holl nwyddau sy'n cael eu masnachu rhwng y wlad dan sylw ac Aelod-wladwriaethau'r UE yn rhydd o dariffau. Mae mynediad rhannol yn golygu bod tariffau'n cael eu gosod ar rai nwyddau – cynhyrchion amaethyddol fel arfer – wrth eu masnachu. |
| Aelodaeth o'r Undeb Tollau a pholisi masnach allanol sy'n cydymffurfio | Aelodaeth o Undeb Tollau'r UE sy'n caniatáu i nwyddau symud yn rhydd rhwng Aelod-wladwriaethau drwy ddileu'r angen am archwiliadau mewn tollfeydd; a chytuno ar dariff allanol cyffredin ar fewnforion o drydedd wledydd i'r Undeb Tollau.                                                  |



|                                             |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
|---------------------------------------------|------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| <b>Triniaeth gyfartal ar gyfer busnesau</b> | Cymryd rhan mewn mesurau sydd: 1) yn gosod gofynion cyffredin ar gyfer rheoleiddio busnes ac yn atal ystumio ar gystadleuaeth, fel hynny sy'n gysylltiedig â chymorthdaliadau gan Lywodraeth (cymorth gwladwriaethol) a rheolau caffael cyhoeddus cenedlaethol; 2) yn dileu rhwystrau rhag masnach heblaw tariffau fel gwahanol reolau ar gyfer diogelwch cynhyrchion; 3) yn agor marchnadoedd i wasanaethau, gan roi sicrwydd i gwmnïau y byddant yn gallu cael mynediad i farchnadoedd yr UE ac, ar ôl cael mynediad, y byddant yn cael eu trin mewn ffordd deg ac anwahaniaethol.           |
| <b>Undeb agosach fyth</b>                   | Mae Cytuniadau'r UE yn cyfeirio at 'ever closer union among the peoples of Europe'. Mewn cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd yn Chwefror 2016, cytunodd Penaethiaid Gwladwriaeth neu Lywodraeth Aelod-wladwriaethau'r UE y bydd Cytuniadau'r UE yn cael eu diwygio yn y dyfodol i'w gwneud yn glir nad yw cyfeiriadau o'r fath yn gymwys i'r DU.                                                                                                                                                                                                                                                    |
| <b>Cyfiawnder a Materion Cartref</b>        | Y gallu a/neu rwymedigaeth i gymryd rhan mewn mesurau fel y Warrant Arestio Ewropeaidd, Europol, rheolau lloches (Rheoliad Dulyn) a mewnfudo'r UE, System Wybodaeth Schengen, Penderfyniadau Prüm a Chonfensiwn Lugano. Gall y DU ddewis cymryd rhan mewn rhai mesurau, ond nid yw'n gorfod gwneud hynny.                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| <b>Pobl yn cael symud yn rhydd</b>          | Y rhwymedigaeth i drin dinasyddion Aelod-wladwriaethau eraill yr UE yn yr un ffordd â gwladolion ac i ddileu rhwystrau digyfiawnhad sy'n eu hatal rhag symud o fewn yr UE, gan gynnwys rhoi'r hawl iddynt fyw a gweithio yn y DU a chael mynediad i'r farchnad lafur a'r system les. Mewn cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd yn Chwefror 2016 sicrhodd y Prif Weinidog gytundeb ar gyfer atalfa frys i gyfyngu ar hawl gweithwyr sydd newydd gyrraedd o'r tu mewn i'r UE i gael yr holl fudd-daliadau i rai sydd mewn gwaith.                                                                      |
| <b>Ardal ddi-ffiniau Schengen</b>           | Ardal ddi-ffiniau Schengen yw'r ardal lle mae rheolaethau pasbort a rheolaethau eraill ar ffinau wedi cael eu dileu.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| <b>Cyfrannu i gyllid yr UE</b>              | Cymryd rhan yng nghyllideb yr UE ar gyfer Aelod-wladwriaethau'r UE; gwneud cyfraniadau sylweddol i wariant yr UE gan Wladwriaethau'r AEE nad ydynt yn aelodau o'r UE. Mae'r DU yn cael ad-daliad ar ei chyfraniadau i gyllideb yr UE.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| <b>Aelod o Ardal yr Ewro</b>                | Ardal yr Ewro yw'r 19 o'r 28 o Aelod-wladwriaethau'r UE sydd wedi mabwysiadu'r ewro yn arian cyffredin. Nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol ar y DU a Denmarc i fabwysiadu'r ewro ac ymuno ag Ardal yr Ewro. Mae'r holl Aelod-wladwriaethau eraill sydd heb fabwysiadu'r ewro eto wedi ymrwymo o dan y Cytuniadau i wneud hynny yn y dyfodol. Mewn cyfarfod o'r Cyngor Ewropeaidd yn Chwefror 2016 sicrhodd y Prif Weinidog gytundeb ar set o egwyddorion cyfreithiol rwymol a fydd yn sicrhau na fydd rheolau'r UE yn cosbi neu'n gwahaniaethu yn erbyn y DU am ein bod wedi dewis cadw'r bunt. |

### Blwch 3: Gogledd Iwerddon

Mae'r Deyrnas Unedig ac Iwerddon yn aelodau o'r UE. Ers y 1920au mae'r ddwy wlad wedi gweithredu Ardal Deithio Gyffredin, sy'n caniatáu i wladolion y ddwy wlad deithio a byw yn y ddwy wlad heb reolaethau mewnfudo. Yn ogystal â hyn, mae'r ddwy wlad yn rhan o Undeb Tollau'r UE, sy'n golygu nad oes rheolaethau tollau ar y ffin rhwng Iwerddon a Gogledd Iwerddon. Oni bai am hynny, byddai nwyddau sy'n cael eu hallforio ar draws y ffin yn gallu dod o dan wahanol fathau o reolaethau tollau a byddai'r atebolrwydd i dalu tollau arnynt yn cael ei bennu yn ôl Rheolau Tarddiad cymhleth.

Mae'r ffaith nad oes cyfyngiadau ar draws y ffin wedi hybu cydweithredu a chynyddu masnach dros yr ugain mlynedd diwethaf. Yn gyffredinol, mae bron 60 y cant o allforion Gogledd Iwerddon yn mynd i'r UE, a 37 y cant yn mynd i Iwerddon yn unig.<sup>12</sup>

Yn ogystal â hyn, mae Gogledd Iwerddon yn cael cyllid sylweddol gan yr UE ar gyfer hybu amaethyddiaeth, creu swyddi a datblygu busnes. Ers gwneud Cytundeb Dydd Gwener y Groglith ym 1998, mae wedi elwa o raglenni'r UE ar gyfer hyrwyddo heddwch a chymodi yn ogystal â hybu sefydlogrwydd cymdeithasol ac economaidd. Nid yw'n glir beth fyddai'n digwydd mewn perthynas â'r cyllid ar gyfer y rhaglenni hyn, yn enwedig pe byddai'r DU yn gadael yr UE ar ganol cylch cyllideb yr UE (2014-2020 ar hyn o bryd).

Pe byddai'r DU yn gadael yr UE, gallai'r trefniadau hyn fod mewn perygl. Nid yw'n glir a allai'r Ardal Deithio Gyffredin barhau i weithredu pe byddai'r DU y tu allan i'r UE, ac Iwerddon y tu mewn iddo, yn yr un ffordd ag yr oedd cyn i'r ddwy wlad ymuno â'r UE ym 1973. O dan y rhan fwyaf o'r dewisiadau sydd wedi'u disgrifio yn y papur hwn, byddai'r DU y tu allan i Undeb Tollau'r UE ac felly byddai masnach ar draws y ffin ag Iwerddon yn dod o dan reolaethau tollau a rheolau ar darddiad cynhyrchion.

## A. Model Norwy

- Byddai model Norwy yn rhoi mynediad sylweddol, ond nid mynediad llawn, i'r DU i'r Farchnad Sengl ar gyfer masnach rydd. Byddem y tu allan i Undeb Tollau'r UE, a byddem yn colli mynediad i holl gytundebau masnach yr UE â 53 o farchnadoedd eraill o gwmpas y byd. Byddai'n cymryd blynyddoedd i ailnegodi'r rhain.
- Mae Norwy'n gorfod derbyn bod pobl yn cael symud yn rhydd ac mae wedi dewis bod yn rhan o ardal ddi-ffiniau Schengen.
- Mae Norwy'n cyfrannu symiau sylweddol i'r UE ac mae'n ddarostyngedig i reolau'r UE. Pe byddai'r DU yn negodi i gael model Norwy, byddem yn cael ein rhwymo gan nifer o reolau'r UE, ond ni fyddem yn cael pleidleisio na rhoi fetu bellach ar greu'r rheolau hynny.
- Er mwyn mabwysiadu model Norwy, byddai angen i'r DU gael cytundeb gan bob un o'r 27 o wledydd sy'n aros yn yr UE, yn ogystal â Gwlad yr Iâ, Liechtenstein, a Norwy.

<sup>12</sup> Ar gael yn: <https://www.detini.gov.uk/sites/default/files/publications/deti/bee-infographic.pdf>

|                                          |                               | Mynediad i'r Farchnad Sengl ar gyfer nwyddau a gwasanaethau |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
|------------------------------------------|-------------------------------|-------------------------------------------------------------|---------------------------------|--------------------------------------|----------------------|-------------------------------|-----------------------------|----------------------------|-------------------------|-----------------------|
|                                          | Pleidleisio ar gyfraith yr UE | Masnachu heb dariffau                                       | Undeb Tollau a masnachu allanol | Triniaeth gyfartal ar gyfer busnesau | 'Undeb agosach fyth' | Cyfiawnder a Materion Cartref | Pobl yn cael symud yn rhydd | Ardal ddi-ffiniau Schengen | Cyfrannu i gyllid yr UE | Aelod o Ardal yr Ewro |
| Aelodaeth y DU o'r UE                    |                               |                                                             |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
| Norwy (y tu allan i'r UE, o fewn yr AEE) |                               |                                                             |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |

## Cefndir

**3.3** Mae Norwy'n aelod o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), ond nid yw'n aelod o'r UE. Mae'r AEE yn cynnwys yr 28 o Aelod-wladwriaethau'r UE, ynghyd â Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein.

**3.4** Yn y 1960au, roedd Norwy, Gwlad yr Iâ a'r DU i gyd yn aelodau o Gymdeithas Fasnach Rydd Ewrop (CFRE). Cytunodd Norwy ar delerau i ymuno â'r Cymunedau Ewropeaidd (fel yr oedd yr UE yn cael ei adnabod bryd hynny) ym 1972, ochr yn ochr â'r DU, Denmarc ac Iwerddon. Ond gwrthodwyd hyn mewn refferendwm a gynhaliwyd yn ddiweddarach y flwyddyn honno. Ar ddechrau'r 1990au, roedd Norwy, ynghyd â Sweden a Gwlad yr Iâ, wedi negodi i ddod yn rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) er mwyn paratoi i ymuno â'r UE. Ond ym 1994 gwrthodwyd aelodaeth o'r UE gan etholwyr Norwy. Mae Norwy yn parhau y tu allan i'r UE a'r tu mewn i AEE ynghyd â Liechtenstein a Gwlad yr Iâ. Mae'r gwledydd hyn, ynghyd â'r Swistir, yn aelodau o CFRE hefyd.

## Prif nodweddion model Norwy

### Mynediad

**3.5** Mae model Norwy yn rhoi llai o fynediad i farchnad yr UE nag sydd gan y DU ar hyn o bryd mewn tair ffordd: mae y tu allan i Undeb Tollau'r UE ar gyfer nwyddau o bob math; mae ganddi fynediad cyfyngedig i'r Farchnad Sengl ar gyfer amaethyddiaeth a physgodfeydd; ac nid yw'n gallu manteisio ar gytundebau masnach allanol yr UE.

**3.6** Gan ei bod y tu allan i Undeb Tollau'r UE, mae'r holl fasnach mewn nwyddau rhwng Norwy a'r UE yn ddarostyngedig i weithdrefnau tollau, a rhaid i gwmnïau allu profi o ble mae'r cydrannau yn eu hallforion wedi dod. Er mwyn cael elwa o gyfraddau ffafraethol, mae allforwyr Norwy'n gorfod darparu tystiolaeth ddogfennol i brofi bod eu cynhyrchion wedi'u gwneud o fewn yr AEE, neu eu bod yn cydymffurfio â mwy na 500 o reolau sy'n ymwneud â chynhyrchion penodol.<sup>13</sup> Yn ymarferol, pe byddai'r DU yn mabwysiadu model Norwy, byddai cwmnïau yn y DU a oedd am fanteisio ar gyfraddau tariff ffafraethol yn gorfod cyflwyno ffurflenni ar gyfer llawer o nwyddau sy'n cael eu cludo ar draws holl ffiniau'r DU (gan gynnwys y ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon). Byddent yn ysgwyddo costau gweinyddol sylweddol am hyn.<sup>14</sup> O fod y tu allan i Undeb Tollau'r UE, byddai hefyd yn rhaid ailgyflwyno cyfyngiadau ar nwyddau yr oedd defnyddwyr am eu cludo ar draws ffiniau, fel y byddent yn fwy drud.

<sup>13</sup> Ar gael yn: <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/HTML/?uri=OJ:L:2005:321:FULL&from=en>

<sup>14</sup> Mewn adolygiad o'r llenyddiaeth mewn astudiaeth gan y Centre for Economic Policy Research a gomisiynwyd gan BIS, awgrymwyd y byddai cydymffurfio â Rheolau Tarddiad yn gallu ychwanegu rhwng 4 y cant a chymaint â 15 y cant o bosibl at gostau nwyddau a werthir o dan CMR rhwng y DU a'r UE: Ar gael yn: [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/271784/bis-14-512-trade-and-investment-balance-of-competence-review-project-report.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/271784/bis-14-512-trade-and-investment-balance-of-competence-review-project-report.pdf)

**3.7** Mae Norwy y tu allan i'r Farchnad Sengl ar gyfer cynnyrch amaethyddol. Mae hyn yn golygu nad yw'n masnachu cynhyrchion yn y sectorau hyn yn rhydd â'r UE. Mae 64 y cant o allforion pysgod y DU a 73 y cant o'i hallforion llysiau'n mynd i'r UE.<sup>15</sup> O dan drefniant fel yr un sydd gan Norwy, gellid gosod tariffau ar nifer o'r allforion hyn .

**3.8** Rhaid i Norwy wneud ei chytundebau masnach a buddsoddi ei hun â gwledydd y tu allan i'r UE. Mae gan Norwy hawl i wneud hyn ar ei phen ei hun, ond mae pob un o'i chytundebau presennol wedi'i negodi drwy Gymdeithas Fasnach Rydd Ewrop (CFRE), sy'n cynnwys Norwy, y Swistir, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein. Hyd yn hyn mae CFRE wedi negodi 25 o Gytundebau Masnach Rydd (CMRau), sy'n cynnwys 36 o wledydd<sup>16</sup> – o'i gymharu â 53 o farchnadoedd ar gyfer yr UE. Ar ben hynny, nid yw amaethyddiaeth a physgodfeydd yn dod o dan y CMRau hyn. Nid yw CFRE wedi dechrau negodi eto ar CMRau â rhai economïau mawr, fel UDA, gan fod y gwledydd hyn wedi canolbwyntio ar negodi â'r UE. Mae Tsieina wedi gwrthod negodi â CFRE fel grŵp ac, yn lle hynny, mae wedi gwneud cytundebau dwyochrog â Gwlad yr Iâ a'r Swistir. Ataliwyd negodiadau rhwng Norwy a Tsieina yn 2011.

**3.9** Dewisodd Norwy ymuno ag ardal ddi-ffiniau Schengen yn 2001. (Mae hefyd yn gorfod derbyn bod pobl yn cael symud yn rhydd o wledydd yr UE a'r AEE – gweler isod.) Mae hyn yn golygu bod Norwy'n cymhwyso polisïau a gytunwyd rhwng gwledydd Schengen ar fisâu a rheolaeth ar ffiniau allanol a rhai mesurau ar gyfer cydweithredu rhwng heddluoedd. O ganlyniad i hyn, nid oes rheolaethau pasbort mewnol rhwng Norwy a gwladwriaethau eraill ardal Schengen a'i gilydd.<sup>17</sup> Mae Norwy'n ymwneud â phenderfyniadau ynghylch ardal ddi-ffiniau Schengen a wneir gan y gwledydd hynny yn yr UE sy'n cymryd rhan, ond nid yw'n cael pleidleisio ar y penderfyniadau hynny. Mae gan Norwy hawliau pleidleisio cyfyngedig yn Frontex (Asiantaeth Ffiniau'r UE) drwy fod yn aelod o ardal Schengen. Mae Norwy'n cael defnyddio System Wybodaeth Schengen II (SIS II), sy'n darparu ar gyfer rhannu data'n rhagweithiol mewn amser real ar symudiadau rhai sydd o dan amheuaeth o fod yn derfysgwyr neu droseddwyd.

**3.10** Nid oes hawl awtomatig gan Norwy i gymryd rhan mewn cydweithredu ehangach yn yr UE ar faterion yr heddlu a chyfiawnder troseddol. Er mwyn manteisio ar drefniadau sy'n cyfateb i'r Warant Arestio Ewropeaidd, mae Norwy wedi gorfod negodi cytundeb dwyochrog ar wahân â'r UE. Gall y broses hon o negodi ar wahân fod yn un hir a byddai'n rhaid cael cytundeb gan y Comisiwn Ewropeaidd a Senedd Ewrop. Mae Norwy'n ymgysylltu ag Europol (asiantaeth yr UE sy'n trefnu cydweithrediad rhwng heddluoedd) drwy gytundeb cydweithredu. Mae wedi gwneud trefniadau tebyg ag Eurojust, sy'n cydgysylltu rhwng awdurdodau barnwrol. Drwy gytundeb cydweithredu pellach, mae Norwy'n cymryd rhan mewn rhai rhannau o Benderfyniadau Prüm i rannu data heddluoedd, gan gynnwys data cofrestru cerbydau, olion bysedd a chofnodion DNA. Mae Norwy'n aelod o'r Confensiwn Lugano diwygiedig ar gyfraith sifil ynghyd â'r UE, y Swistir, a Gwlad yr Iâ. Nid yw'n aelod o'r System Wybodaeth Cofnodion Troseddol Ewropeaidd (ECRIS), sy'n rhannu gwybodaeth am gollfarnau troseddol rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE.

**3.11** Mae model Norwy yn golygu nad oes gan Norwy ran mewn penderfyniadau ar bolisi rhyngwladol a diogelwch yr UE. Gall ddewis alinio â safbwynt Aelod-wladwriaethau'r UE a gall gymryd rhan mewn sancsiynau sy'n cael eu gosod ar wledydd allanol, er enghraifft, yn achos Iran neu Rwsia. Mae Norwy wedi cymryd rhan yn wirfoddol fel hyn mewn mwy na 90

<sup>15</sup> UN COMTRADE Harmonised System Product Group 03.

<sup>16</sup> Ar gael yn: <http://www.efta.int/free-trade/free-trade-agreements>

<sup>17</sup> O ganlyniad i'r argyfwng mewnffudo diweddar, mae Norwy wedi cyflwyno gwiriadau pasbort dros dro ar ei ffiniau ag Aelod-wladwriaethau'r UE

y cant o sancsiynau'r UE, ac mae wedi anfon personél milwrol ar genadaethau amddiffyn yr UE. Gan fod Norwy'n aelod o NATO, mae ganddi berthynas agos ym maes amddiffyn â'r rhan fwyaf o wledydd yr UE. Ond nid yw'n cael pleidleisio ar benderfyniadau gan yr UE ar faterion diogelwch rhyngwladol.

## Costau a Rhwymedigaethau

**3.12** Mae'n ofynnol i Norwy sicrhau bod ei chyfraith ddomestig yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth a wnaeth yr UE sy'n rhan o Gytundeb yr AEE. Mae astudiaeth annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Norwy yn 2012 wedi amcangyfrif bod Norwy wedi gorfod ymgorffori tua thri chwarter o holl gyfreithiau'r UE yn ei deddfwriaeth ddomestig ei hun yn gyfnewid am gael mynediad i farchnad yr UE.<sup>18</sup> Mae hyn yn cynnwys nid yn unig rheolau ar gynhyrchion a gwasanaethau mewn sectorau penodol, ond hefyd deddfwriaeth drawsbynciol mewn meysydd fel polisi ar gystadleuaeth, Cymorth Gwladwriaethol, ac eiddo deallusol. Mae hefyd yn ofynnol i Norwy gydymffurfio â deddfwriaeth yr UE mewn meysydd sydd heb gysylltiad uniongyrchol â'r Farchnad Sengl, gan gynnwys elfennau o bolisi cymdeithasol, diogelu defnyddwyr a safonau amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith, y Gyfarwyddeb Gweithwyr Asiantaeth a'r Gyfarwyddeb Ynni Adnewyddadwy.

**3.13** Mae Norwy'n gorfod derbyn hawl pobl i symud yn rhydd o wledydd yr UE a'r AEE. Bydd hawl gan wladolion yr AEE a'r UE sy'n symud i Norwy i weithio neu chwilio am swydd i gael eu trin yn gyfartal â gwladolion. Felly mae ganddynt hawl i gael budd-daliadau, gan gynnwys lwfansau diweithdra, budd-dal salwch a budd-dal tai. Yn 2014 roedd mwy na 6 y cant o boblogaeth breswyl Norwy'n wladolion o wledydd yr UE,<sup>19</sup> sy'n gyfran fwy nag yn y DU.

**3.14** Mae Norwy'n cyfrannu symiau sylweddol i wariant yr UE. Mae Norwy'n talu grantiau i Aelod-wladwriaethau tlotach yr UE bob blwyddyn. Bydd maint a natur y cronfeydd hyn yn cael eu hailnegodi o bryd i'w gilydd – dechreuodd y cytundeb diweddaraf yn 2014 a bydd yn para tan 2021.<sup>20</sup> Mae Norwy hefyd yn cyfrannu arian i nifer o raglenni'r UE, gan gynnwys y rhai ar gyfer ymchwil ac addysg y mae'n cymryd rhan ynddynt. Wrth ddisgrifio'r cyfraniadau gan Norwy i wariant yr UE, dywedodd y cyn-Weinidog Ewrop yn Llywodraeth Norwy "our financial contributions are on a par with comparable EU Member States."<sup>21</sup>

## Dylanwad a Sofraniaeth

**3.15** Nid oes cynrychiolaeth na phleidlais gan Norwy mewn penderfyniadau ar gyfraith yr UE. Ni fydd Prif Weinidog Norwy'n bresennol yng nghyfarfodydd y Cyngor Ewropeaidd. Nid yw Norwy'n cymryd rhan yng Nghyngor y Gweinidogion, nid oes ganddi Aelodau o Senedd Ewrop (ASEau), nac aelod cenedlaethol ar y Comisiwn Ewropeaidd, na barnwr yn Llys Cyfiawnder Ewrop, ac nid oes hawl gan ei dinasyddion i bleidleisio yn etholiadau'r UE nac i weithio yn sefydliadau'r UE.

**3.16** Mae hyn yn golygu bod dylanwad Norwy ar benderfyniadau a wneir gan yr UE yn gyfyngedig.<sup>22</sup> Fe all Norwy gyfrannu barn arbenigol ac mae ganddi rai hawliau i'w chynnwys mewn ymgynghoriadau ar gyfreithiau newydd yr UE drwy un o Gydbwyllgorau'r AEE. Mae ganddi gynrychiolaeth ar rai o weithgorddau'r Cyngor. Bydd Norwy'n cymryd rhan mewn

<sup>18</sup> Llywodraeth Norwy: [http://www.eu-norway.org/Global/SiteFolders/webeu/NOU2012\\_2\\_Chapter\\_1.pdf](http://www.eu-norway.org/Global/SiteFolders/webeu/NOU2012_2_Chapter_1.pdf)

<sup>19</sup> Data poblogaeth Eurostat.

<sup>20</sup> Ar gael yn: <http://eeagrants.org/News/2015/Agreement-secured-on-new-funding-round>

<sup>21</sup> Ar gael yn: [https://www.regjeringen.no/en/aktuelt/eu\\_alternatives/id2459944/](https://www.regjeringen.no/en/aktuelt/eu_alternatives/id2459944/)

<sup>22</sup> Mae gan Norwy hawl i siarad yng Nghyngor yr Undeb Ewropeaidd ar benderfyniadau sy'n ymwneud ag ardal ddi-ffiniau Schengen, ond nid oes ganddi hawl i bleidleisio. Mae hyn wedi'i ddatgan yn Erthygl 99 o Gytundeb yr AEE



penderfyniadau sy'n ymwneud ag ardal ddi-ffiniau Schengen. Mae Norwy hefyd yn gallu ceisio dylanwadu ar bolisi'r UE drwy gysylltiadau diplomyddol ym Mrwsel. Mae gan Norwy 'Hawl Cadw' mewn perthynas â chymhwyso rheolau newydd ar y Farchnad Sengl, ond nid yw erioed wedi'i defnyddio. Mae'r hawl hon yn anodd ei defnyddio gan y byddai hynny'n gallu arwain at atal mynediad i'r Farchnad Sengl yn y maes cysylltiedig.<sup>23</sup> Yn ogystal â hyn, mae gan Norwy hawl mewn amgylchiadau cyfyngedig i atal pobl rhag symud yn rhydd, ond ar sail gyfatebol yn unig, fel y byddai ei defnyddio'n dileu hawl dinasyddion Norwy i symud i'r UE.

**3.17** Mae Norwy'n ddarostyngedig i drefniadau cymhleth i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â chyfraith yr UE. Yn achos Aelod-wladwriaethau'r UE, Llys Cyfiawnder Ewrop fydd yn dyfarnu mewn anghydfodau ynghylch cydymffurfio. Mae Norwy'n dod o dan awdurdodaeth Llys CFRE, sydd â'i ganolfan yn Lwcsembwrg, ac sy'n cynnwys barnwyr o wledydd CFRE. Yn y rhan fwyaf o lawer o achosion, bydd Llys CFRE yn dilyn yr egwyddorion yn nyfarniadau Llys Cyfiawnder Ewrop.

**3.18** Yn 2012, comisiynwyd adroddiad annibynnol pwysig gan Lywodraeth Norwy ar y canlyniadau i'r ffaith ei bod y tu allan i'r UE ac o fewn yr AEE. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod y model hwn wedi dod â manteision economaidd drwy'r mynediad i Farchnad Sengl yr UE, ond bod Norwy wedi colli ei llais mewn penderfyniadau: "The most problematic aspect of Norway's form of association with the EU is the fact that Norway is in practice bound to adopt EU policies and rules on a broad range of issues without being a member and without voting rights", meddai'r adroddiad. "This raises democratic problems."<sup>24</sup>

## Addasrwydd i'r DU

**3.19** Yn Chwefror 2015, dywedodd cyn-Weinidog Ewrop yn Llywodraeth Norwy, Vidar Helgesen, "I find it difficult to imagine the UK, with your global ambition, dedication and contributions, being comfortable with such an arrangement".<sup>25</sup> Mae model Norwy'n rhoi mynediad sylweddol, ond nid mynediad llawn, i'r Farchnad Sengl. Mae'n golygu derbyn y rhan fwyaf o reolau'r UE, ond bod heb fawr o ddylanwad dros greu'r rheolau hynny. Gall hyn fod yn addas i fuddiannau gwledydd fel Gwlad yr Iâ a Norwy sy'n allforio un neu ddau o gynhyrchion yn bennaf. Yn 2014 oled a nwy oedd mwy na thair rhan o bump o allforion Norwy, tra oedd mwy na thri chwarter y nwyddau a allforiwyd gan Wlad yr Iâ yn bysgod ac alwminiwm.<sup>26</sup> Yn achos gwledydd sy'n allforio deunyddiau crai'n bennaf, mae gofynion y Rheolau Tarddiad yn llai problemus. Mae aelodaeth o'r AEE wedi caniatáu i'r gwledydd hyn fasnachu'n llwyddiannus yn y nwyddau hyn, gan ddiogelu diwydiannau eraill, yn enwedig ffermio.

**3.20** Yn achos economi amrywiol fel un y DU, ni fyddai'r trefniant hwn yn gweithio cystal. Byddai ein gweithgynhyrchwyr yn gweld cynnydd mewn costau o ganlyniad i fod y tu allan i'r Undeb Tollau, yn enwedig cwmnïau sy'n rhan o gadwynau cyflenwi rhyngwladol, fel rhai yn y

<sup>23</sup> Mae'r hawl cadw ("right of reservation") (Erthygl 102 o Gytundeb yr AEE) yn rhoi hawl i aelodau'r AEE wrthod eitem benodol o ddeddfwriaeth yr UE, hyd yn oed os yw'n berthnasol ac yn dod o dan eu cytundeb aelodaeth. Fodd bynnag, y canlyniad i arfer yr hawl hon yw y gall yr UE ddewis atal unrhyw hawliau cysylltiedig sydd gan wladwriaethau'r AEE i gael buddion cysylltiedig, fel mynediad i'r farchnad. Yn ogystal â hyn, wrth arfer yr hawliau cadw, mae gwladwriaethau'r AEE yn gorfod dechrau negodiadau i ddod o hyd i ateb sy'n addas i'r holl bartion. Ni roddwyd prawf eto ar y broses hon yn ei chyfarwydd, a'r graddau y byddai mynediad i'r Farchnad Sengl yn cael ei gyfyngu. Roedd Norwy wedi defnyddio'r Hawl Cadw am y tro cyntaf, ac wedi tynnu'n ôl oddi wrth hynny wedyn, yn 2011 mewn perthynas â chyfarwydddeb gwasanaethau post yr UE.

<sup>24</sup> "Outside and Inside: Norway's agreements with the European Union" (Ionawr 2012), Llywodraeth Norwy: Pwyllgor Adolygu'r AEE, Pennod 13.

<sup>25</sup> Dyfynnwyd yn <http://www.telegraph.co.uk/news/worldnews/europe/11429894/Why-Britain-should-not-leave-the-EU-to-be-like-Norway-by-a-Norwegian-minister.html>

<sup>26</sup> UN COMTRADE.

diwydiant ceir. Ar gyfartaledd, mae 23 y cant o werth allforion y DU yn deillio o gydrannau o wledydd tramor.<sup>27</sup>

**3.21** Pe byddai'r DU yn gadael yr UE, byddai'n colli manteision yr holl Gytundebau Masnach Rydd y mae'r UE wedi'u gwneud â thrydedd wledydd. Mae hyn yn golygu na fyddem yn cael mantais bellach o'r cytundebau masnach y mae'r UE wedi'u negodi â 53 o farchnadoedd fel Mecsico, De Affrica a De Korea, a'r rheini y mae'n eu negodi ar hyn o bryd ag Unol Daleithiau America a Japan. Fe fyddai'r DU yn ceisio negodi trefniadau i gymryd eu lle, ond byddai hyn yn cymryd blynyddoedd ac nid oes sicrwydd y byddai'r DU yn llwyddo i negodi telerau cystal â'r rheini sydd gennym heddiw.

**3.22** Byddai mabwysiadu model Norwy'n golygu parhau i wneud taliadau i'r UE. Yn gyfnewid am y math o fynediad sydd gan Norwy i'r Farchnad Sengl, byddai'r DU yn gorfod parhau i gyfrannu arian i'r UE. Ni fyddai'r DU yn cyfrannu i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) bellach, ond byddai maint unrhyw arbedion net o ganlyniad i hyn yn dibynnu ar ddewisiadau polisi. Byddai'r DU yn gorfod penderfynu i ba raddau yr oedd am efelychu'r cymorthdaliadau o €3.5 biliwn sy'n cael eu dyrannu i'r DU ar hyn o bryd o dan y PAC.<sup>28</sup> Byddai'n rhaid pwysu a mesur hyn yn erbyn blaenoriaethau eraill ar gyfer gwariant cyhoeddus.

**3.23** Pe byddem yn cael mynediad llawn i farchnad yr UE o dan fodel Norwy, byddai'n ofynnol o hyd i ni dderbyn bod pobl o wledydd yr UE a'r AEE yn cael symud yn rhydd. Ni fyddai hyn yn cynnwys yr atalfa frys ar hawl ymfudwyr sydd newydd gyrraedd o'r UE i dderbyn yr holl fudd-daliadau i rai sydd mewn gwaith sydd wedi'i negodi gan y DU yn rhan o'n setliad newydd. Mae'r UE wedi'i gwneud yn glir bod rhaid derbyn yr egwyddor bod pobl yn cael symud yn rhydd er mwyn cael mynediad llawn i'r Farchnad Sengl.

**3.24** Ni fyddai gan y DU ddim neu nemor ddim llais mewn penderfyniadau ar reolau a fydd yn llywio Marchnad Sengl yr UE yn y dyfodol. Dros amser, byddai hyn yn cael effaith niweidiol gynyddol ar economi'r DU, gan na fyddai gan Lywodraeth y DU fawr o ddylanwad ar reolau newydd a allai fod yn niweidiol i gwmnïau'r DU. Cyn hir bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cynnig deddfwriaeth newydd ar feysydd fel gwasanaethau cyfreithiol, busnes ac ariannol, sy'n hollbwysig ar gyfer allforio gan y DU. Wrth fod yn rhan o'r UE, mae gennym lais cryf mewn llunio'r ddeddfwriaeth hon sy'n cynnwys, er enghraifft, yr Undeb Marchnadoedd Cyfalaf, a fydd yn gwella llif y buddsoddiadau i fusnesau ledled Ewrop. Ar hyn o bryd, Comisiynydd y DU sy'n dal y portffolio ar gyfer gwasanaethau ariannol, ac mae'n arwain ar ddeddfwriaeth yn y maes hwn. Pe byddem y tu allan, ni fyddai gennym fawr o ddylanwad ac ni fyddem yn gallu ceisio rhwystro mesurau a fyddai'n rhoi ein cwmnïau o dan anfantais. Byddai cwmnïau yn y DU sy'n gweithgynhyrchu nwyddau fel ceir a chynhyrchion fferyllol neu gemegol yn gallu wynebu problemau wrth geisio cael mynediad i'r Farchnad Sengl os oedd rheolau'r UE ar gynhyrchion yn fwy beichus i gwmnïau'r DU. Byddai hyn yn bwysig iawn i sector fel y diwydiant cynhyrchu ceir, lle mae'r DU yn mewnfario ac allforio niferoedd mawr o gerbydau, a lle mae ein cwmnïau ni'n cystadlu'n gryf â chwmnïau Ewropeaidd.

<sup>27</sup> Amcangyfrifon BIS ar gyfer 2011 wedi'u seilio ar gronfa ddata Masnachu mewn Gwerth Ychwanegol yr OECD.

<sup>28</sup> Atodiad III i Reoliad (UE) Rhif 1305/2013.

**3.25** Yn fwy cyffredinol, byddai perthynas â'r UE wedi'i seilio ar fodel Norwy yn gwanhau ein dylanwad rhyngwladol ac nid oes sicrwydd y byddai'n arwain at y lefel o gydweithredu sydd gennym ar hyn o bryd ar fesurau sy'n rhoi diogelwch i ni. Er y byddai'r DU yn parhau'n ddylanwadol ar lefel ryngwladol fel aelod parhaol o Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig a'r economi bumed fwyaf yn y byd<sup>29</sup>, ni fyddem bellach yn gallu hyrwyddo safbwyntiau unedig yn Ewrop tuag at wledydd fel Iran neu Rwsia, na defnyddio pwysau economaidd a gwleidyddol yr UE i hybu ein buddiannau rhyngwladol. Byddem yn colli ein statws arbennig presennol, sy'n rhoi'r hawl i ni ddewis pa fesurau Cyfiawnder a Materion Cartref, fel y rheini ar gyfer plismona a chydweithredu barnwrol, yr ydym am gymryd rhan ynddynt. Fel y mae Norwy wedi canfod, byddai'n anodd sicrhau'r un math o gydweithrediad drwy wneud cytundebau newydd â'r UE.<sup>30</sup> Byddai hyn yn effeithio ar nifer o drefniadau allweddol ar gyfer cydweithredu rhwng heddluoedd a barnwyr.

---

<sup>29</sup> IMF World Economic Outlook (Hydref 2015)

<sup>30</sup> Nododd Rob Wainwright, Cyfarwyddwr Europol, yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cartref ar 3 Medi 2013, na fyddai cytundeb cydweithredu ag Europol, tebyg i'r un sydd gan Norwy, yn rhoi trefniadau i'r DU sydd mor effeithiol ag aelodaeth bresennol y DU o Europol




## Blwch 4: Economi'r DU

Economi'r DU yw'r bumed fwyaf yn y byd, a'i chynnyrch yn fwy na £1.8 triliwn.<sup>31</sup> Mae gwasanaethau wedi cynyddu fel cyfran o economi'r DU dros y 25 mlynedd diwethaf, gan dyfu o 67 y cant ar ddechrau'r 1990au i 79 y cant yn 2015. Mewn cyferbyniad â hyn, mae gweithgynhyrchu yn 10 y cant o'r economi ac amaethyddiaeth yn 0.7 y cant.<sup>32</sup>

Mae'r newid hwn yng nghydbwysedd yr economi wedi'i adlewyrchu hefyd yn nifer cynyddol y swyddi yn y sector gwasanaethau, sydd bellach yn cyflogi mwy na 25 miliwn o bobl.<sup>33</sup> Rhai o'r prif sectorau gwasanaeth busnes sy'n cynnal economi'r DU yw peirianeg, hysbysebu a chyllid. Mae pob un o'r gwasanaethau hyn yn fasnachadwy iawn, ac mae'r DU yn gartref i nifer o ddarparwyr gwasanaethau mwyaf blaenllaw'r byd.

Yn hanesyddol, mae economi'r DU wedi bod yn un agored. Mae'r twf hwn mewn gwasanaethau masnachadwy wedi digwydd yr un pryd â chynnydd yn natur agored economi'r DU. Mae masnach (mewnforion ac allforion) fel cyfran o CMC wedi cynyddu'n raddol o 40 y cant ym 1948 i 58 y cant yn 2014.<sup>34</sup> Mae hyn yn fwy na dwywaith y gyfran yn economi UDA. Mae cyfran y gwasanaethau yng nghyfanswm yr allforion wedi dyblu bron dros y cyfnod hwn, ac roedd gwasanaethau'n 43 y cant o gyfanswm yr allforion (£220 biliwn) yn 2014 – y gyfran fwyaf o allforion gwasanaethau o holl economïau datblygedig mawr y byd. Mae'r DU yn allforio mwy o wasanaethau i weddill yr UE nag y mae'n eu mewnforio, ond yn mewnforio mwy o nwyddau o weddill yr UE nag y mae'n eu hallforio.

Er bod gweithgynhyrchu'n cyflogi cyfran lawer llai o'r gweithlu – 3 miliwn o bobl – mae'n chwarae rhan bwysig yn economi'r DU oherwydd y cyfraniad at gynhyrchiant gan nifer o ddiwydiannau gweithgynhyrchu uwch, er enghraifft y sectorau modur ac awyrodod. Mae'r ddau sector hyn yn bwysig hefyd o ran sbarduno allforion nwyddau'r DU:



<sup>31</sup> IMF World Economic Outlook 2015, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (Hydref 2015), ONS Second Estimate of GDP, Chwefror 2016.

<sup>32</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, UK GDP low level aggregates (Second Estimate of 2015 GDP)

<sup>33</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Labour Market Statistics (Chwefror 2016). (Yr holl ddata am y farchnad lafur yn y blwch.)

<sup>34</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book, Hydref 2015. Historical data consistent methodology. (Yr holl ddata am fasnach yn y blwch.)

## Blwch 5: 'Pasbortio' a Gwasanaethau Ariannol

Oherwydd 'pasbort' yr UE ar gyfer gwasanaethau ariannol, mae cwmnïau gwasanaethau ariannol a awdurdodwyd yn y DU yn gallu darparu eu gwasanaethau ledled yr UE, heb fod angen awdurdodi pellach. Mae ein haelodaeth o'r UE yn rhoi mantais fawr i gwmnïau'r DU yn hyn o beth. Mae'r 'pasbort' yn golygu hefyd fod y prif gyfrifoldeb dros reoleiddio gweithgareddau cwmnïau'r DU ar draws yr UE/AEE yn aros gyda rheoleiddwyr y DU yn hytrach na'i fod yn cael ei drosglwyddo i reoleiddwyr eraill yn yr UE/AEE.

Term hwylus yw 'pasbort'. Fel y mae'r enw'n awgrymu, mae'n darparu ar gyfer cynnig gwasanaethau ariannol yn ddirwysr ar draws y Farchnad Sengl. Mae'r pasbort yn cynnwys casgliad o fesurau yn is-ddeddfwriaeth yr UE, sy'n lleihau rhwystrau rheoliadol, gweithredol a chyfreithiol a fyddai'n codi fel arall. Y sector cyntaf a gafodd hawliau pasbortio oedd y sector bancio, pan ddaeth yr Ail Gyfarwyddeb Bancio i rym ym 1993. Ers hynny mae pasbortau wedi'u cyflwyno hefyd ar gyfer gwasanaethau yswiriant, buddsoddi, rheoli asedau a thalu.

Nid yw pasbort gwasanaethau ariannol yr UE ond ar gael i gwmnïau sydd wedi'u hawdurdodi yng ngwledydd yr UE neu'r AEE. Felly mae cwmnïau rhyngwladol yn gorfod sefydlu is-gwmni mewn o leiaf un Aelod-wladwriaeth, fel y DU, er mwyn cael budd o'r pasbort. Mae'r DU yn gartref i'r ganolfan ariannol rhyngwladol fwyaf yn Ewrop. Mae tua hanner y cwmnïau ariannol mwyaf yn y byd – sy'n cynnwys banciau masnachol a buddsoddi yn ogystal â chwmnïau yswiriant a rheoli asedau a chronfeydd mantoli – wedi dewis lleoli eu pencadlys Ewropeaidd yn y DU.<sup>35</sup>

Mae'r pasbort yn gallu gweithredu am fod holl wledydd yr AEE, gan gynnwys y DU, yn glynu wrth yr un safonau rheoleiddio a osodwyd gan yr UE.

Mewn rhai meysydd mae 'cyfundrefnau cyfwerthedd' gan yr UE sy'n caniatáu masnachu gan gwmnïau gwasanaethau ariannol o'r tu allan i'r UE yn y Farchnad Sengl mewn ffordd debyg i basbort yr UE ar gyfer gwasanaethau ariannol. Gwneir hyn drwy asesu a yw cyfundrefn rheoleiddio'r wlad dan sylw yn cyfateb i reolau'r UE yn y maes perthnasol. Lle mae cyfundrefnau cyfwerthedd o'r fath ar gael, maent yn gymwys i'r holl wledydd y tu allan i'r AEE gan gynnwys aelodau Sefydliad Masnach y Byd. Fodd bynnag, gall y gofynion sydd ynglŷn â threfniadau o'r fath ar gyfer mynediad fod yn sylweddol, ac mae rhai ohonynt heb eu profi'n ymarferol eto. Er enghraifft, mae'n ofynnol i bob pwrpas fod gwledydd yn cadw eu rheoliadau ariannol yn y maes perthnasol yn debyg i rai'r UE, er nad oes ganddynt lais mewn penderfynu ar gynnwys y rheoliadau hynny.

<sup>35</sup> Adroddiad Banc Lloegr (2015): 'EU Membership and the Bank of England':  
Ar gael yn: <http://www.bankofengland.co.uk/publications/Documents/speeches/2015/euboe211015.pdf>

## Blwch 6: Negodi cytundebau masnach y tu allan i'r UE

Ar hyn o bryd mae cwmnïau'r DU yn cael mynediad ffafraethol i nifer o farchnadoedd allanol drwy gytundebau masnach yr UE sy'n cynnwys 53 o farchnadoedd. Gan gynnwys y 27 o wledydd eraill yn y Farchnad Sengl, a'r gwledydd yn Undeb Tollau'r UE a CFRE, mae hyn yn golygu bod mwy na 80 o gytundebau masnach sy'n cwmpasu mwy nag un rhan o dair o economi'r byd.<sup>36</sup> Mewn cymhariaeth â hyn, mae gan UDA 14 o gytundebau masnach (yn cynnwys 20 o wledydd),<sup>37</sup> ac mae gan Awstralia 10 (yn cynnwys 19 o wledydd).<sup>38</sup> Mae'r cytundebau masnach a wnaed gan yr UE yn bwysig i economi'r DU. Roedd 44 y cant o allforion y DU yn 2014 wedi mynd i wledydd o fewn yr UE, tra oedd y fasnach â'r gwledydd y tu allan i'r UE y mae'r UE wedi gwneud cytundebau masnach â nhw yn cyfrif am 12 y cant ychwanegol. Byddai'r cytundebau sy'n cael eu negodi nawr yn cynyddu hyn ymhellach – i 82 y cant o gyfanswm yr allforion – ar ôl eu cwblhau'n llwyddiannus.<sup>39</sup>

Pe byddai'r DU yn gadael yr UE, heb wneud trefniadau newydd, byddai ein cwmnïau'n colli mynediad ffafraethol i'r holl farchnadoedd hyn ar unwaith. Byddai hyn yn parhau nes bod y DU yn gallu negodi cytundebau dwyochrog â'r gwledydd hyn. Byddai'n peryglu'r gwarged mawr sydd gennym o ran allforio gwasanaethau<sup>40</sup> ac fe gymerai flynyddoedd i'w gwblhau:

- mae bron yn sicr y byddai'r gwledydd hynny, fel UDA, sy'n negodi cytundebau masnach â'r UE ar hyn o bryd yn dymuno cwblhau'r rhain yn gyntaf, cyn penderfynu a oeddent am ddechrau negodi ar wahân â'r DU. Er enghraifft, mae Michael Froman, Cynrychiolydd Masnach UDA, wedi'i gwneud yn glir mai strategaeth UDA yw datblygu trefniadau fel TPP a TTIP ac nad yw "particularly in the market for FTAs with individual countries."<sup>41</sup> Mae UDA wedi dweud ei bod yn debygol y byddai negodiadau â gwledydd sy'n aelodau o CFRE fel Norwy a'r Swistir yn gorfod aros eu tro nes iddi gwblhau ei chytundeb masnach â'r UE. Mewn egwyddor, y cymhellant economaidd yw cwblhau'r cytundebau mwyaf yn gyntaf. Gellid dilyn yr un strategaeth yn achos y DU, UDA a'r UE; yn 2014 roedd lefel yr allforion o nwyddau a gwasanaethau o UDA i'r 27 o Aelod-wladwriaethau eraill yn yr UE yn 3.2 gwaith yn uwch na lefel yr allforion i'r DU.<sup>42</sup>
- byddem yn disgwyl gweld y 27 o wledydd sy'n aros yn yr UE yn gofalu am fuddiannau eu diwydiannau eu hunain. Mae'r DU yn fwy dibynnol ar allforion i'r UE nag y mae gweddill yr UE yn ddibynnol ar allforion i'r DU. Fel cyfran o'r economi, dim ond 3.1 y cant o'r CMC ymysg y 27 Aelod-wladwriaeth arall sy'n gysylltiedig ag allforion i'r DU, tra bo 12.6 y cant o CMC y DU yn gysylltiedig ag allforion i'r UE.<sup>43</sup> Byddai hyn yn ein rhoi o dan anfantais wrth negodi.

Ystyr hyn i gyd yw ei bod yn debygol o gymryd blynyddoedd i gwblhau cytundebau masnach o'r fath. Ac mae gwir berygl na fyddem yn gallu sicrhau telerau mor ffafriol â'r rheini yr ydym yn eu cael drwy'r UE ar hyn o bryd.

<sup>36</sup> Data Sefydliad Masnach y Byd. Ar gael yn: <http://rtais.wto.org/UI/PublicMaintainRTAHome.aspx>

<sup>37</sup> Ar gael yn: <https://ustr.gov/trade-agreements/free-trade-agreements>

<sup>38</sup> Ar gael yn: <http://dfat.gov.au/trade/agreements/Pages/status-of-fta-negotiations.aspx>

<sup>39</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book (Hydref 2015).


<sup>40</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book (Hydref 2015).

<sup>41</sup> 28 Hydref 2015: <http://www.reuters.com/article/us-britain-eu-usa-idUSKCN0SM2LS20151028>

<sup>42</sup> Ar gael yn: [http://bea.gov/newsreleases/international/trade/trad\\_geo\\_time\\_series.xls](http://bea.gov/newsreleases/international/trade/trad_geo_time_series.xls)

<sup>43</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book (Tachwedd 2015), data ar CMC oddi wrth Eurostat.

## Maint yr economi (CMC, \$bn)<sup>44</sup>



## B. Cytundebau dwyochrog wedi'u negodi

- Byddai'r broses o negodi cytundeb masnach penodol rhwng y DU a'r UE yn gymhleth. Er enghraifft, cymerwyd saith mlynedd i negodi'r cytundeb rhwng yr UE a Chanada ac nid yw mewn grym eto. Mae'n bosibl y byddai'n rhaid cael cytundeb gan bob un o'r 27 o Aelod-wladwriaethau sy'n aros yn yr UE ar gyfer cytundeb rhwng y DU a'r UE. Byddai angen i Senedd Ewrop ei gymeradwyo hefyd.
- Nid oes yr un cytundeb masnach dwyochrog yn bod ar hyn o bryd a fyddai'n rhoi'r un lefel o fynediad ag y mae'r DU yn ei chael i'r Farchnad Sengl nawr. Yn benodol, nid oes yr un sy'n rhoi mynediad tebyg ar gyfer gwasanaethau, sy'n cyfrif am bron 80 y cant o economi'r DU.
- Byddai'r hawl i gael mynediad i'r Farchnad Sengl yn gysylltiedig â'r rhwymedigaethau y byddem yn barod i'w derbyn. Byddai cytundeb masnach tebyg i hwnnw rhwng yr UE a Chanada yn rhoi llai o fynediad i farchnad yr UE nag y mae'r DU yn ei gael ar hyn o bryd ar gyfer gwasanaethau ariannol, er enghraifft, ond ni fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i'r DU dderbyn hawl pobl i symud yn rhydd na gwneud cyfraniadau sylweddol i wariant yr UE. Mae'r Swistir yn cael mwy o fynediad i'r Farchnad Sengl, ond rhaid iddi dderbyn y rhwymedigaethau hyn yn gyfnewid am hynny.
- Byddai'r DU yn colli'r manteision o Gytundebau Masnach Rydd yr UE â rhannau eraill o'r byd: fe gymerai flynyddoedd i ailnegodi'r rhain.
- Byddai'r DU yn colli ei llais a'i phleidlais ar reolau'r UE.

**3.26** Mae nifer o wledydd wedi negodi cytundebau masnach â'r UE. Cafwyd set gymhleth o gytundebau dwyochrog rhwng y Swistir a'r UE. Mae Twrci'n rhan o Undeb Tollau'r UE a'i huchelgais hirdymor yw ymuno â'r UE. Mae Canada wedi cytuno ar Gytundeb Masnach Rydd â'r UE, er nad yw wedi'i lofnodi a'i gwblhau eto. Yn yr adran hon, rydym yn edrych ar y graddau y gallai'r modelau hyn weithio i'r DU, pe byddem yn gadael yr UE.

## Y Swistir

|                       |                               | Mynediad i'r Farchnad Sengl ar gyfer nwyddau a gwasanaethau |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
|-----------------------|-------------------------------|-------------------------------------------------------------|---------------------------------|--------------------------------------|----------------------|-------------------------------|-----------------------------|----------------------------|-------------------------|-----------------------|
|                       | Pleidleisio ar gyfraith yr UE | Masnachu heb dariffau                                       | Undeb Tollau a masnachu allanol | Triniaeth gyfartal ar gyfer busnesau | 'Undeb agosach fyth' | Cyfiawnder a Materion Cartref | Pobl yn cael symud yn rhydd | Ardal ddi-ffiniau Schengen | Cyfrannu i gyllid yr UE | Aelod o Ardal yr Ewro |
| Aelodaeth y DU o'r UE |                               |                                                             |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
| Y Swistir             |                               |                                                             |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |

## Prif nodweddion model y Swistir

### Mynediad

**3.27** Mae'r berthynas rhwng y Swistir a'r UE wedi'i seilio ar gyfres o gytundebau dwyochrog. Ar ganol y 1980au, dechreuwyd trafodaethau rhwng y Gymuned Ewropeaidd a gwladwriaethau CFRE (yn cynnwys y Swistir) gyda'r bwriad o sefydlu bloc masnach newydd a fyddai'n ehangu'r Farchnad Sengl. Roedd hyn wedi arwain yn y pen draw at ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE). Ond ym 1992 pleidleisiodd etholwyr y Swistir yn erbyn aelodaeth o'r AEE. Oherwydd hynny, yn wahanol i Norwy, nid oedd hawl gan y Swistir i gael mynediad i'r Farchnad Sengl. O ganlyniad i hyn, mae'r Swistir wedi dilyn llwybr gwahanol. Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae wedi dyfalbarhau ar negodi mwy na 100 o gytundebau unigol â'r UE, ar gyfer mynediad i'r farchnad mewn gwahanol sectorau.<sup>45</sup>

**3.28** Mynediad rhannol sydd gan y Swistir i'r Farchnad Sengl. Mae ganddi'r mynediad mwyaf ar gyfer masnachu nwyddau. Ceir darpariaethau amrywiol yn y cytundebau dwyochrog ar gyfer lleihau rhwystrau ymarferol rhag masnachu ar draws ffiniau. Fodd bynnag, nid yw'r cytundebau hyn yn darparu ar gyfer pob agwedd ar amaethyddiaeth, felly mae tariffau'n cael eu gosod o hyd ar rai cynhyrchion amaethyddol.

**3.29** Mae gan y Swistir fynediad cyfyngedig ar gyfer masnachu gwasanaethau. Darpariaeth rannol sydd yn y cytundebau dwyochrog, a dim ond rhai sectorau penodol sydd wedi'u cynnwys, fel rhai mathau o yswiriant a chaffael cyhoeddus. Ond mae gan y Swistir fynediad cyfyngedig i'r farchnad ar gyfer gwasanaethau proffesiynol, gan gynnwys cyfrifyddiaeth, archwilio, a gwasanaethau cyfreithiol. Nid yw'r unigolion perthnasol, gan gynnwys gweithwyr proffesiynol hunangyflogedig, ond yn cael darparu gwasanaethau yn yr UE am 90 o ddiwrnodau y flwyddyn ar y mwyaf. Mae hyn yn cyfyngu'n sylweddol ar allu'r Swistir i allforio i'r UE yn y sectorau hyn. Ac nid oes gan y Swistir fynediad cyffredinol i farchnad gwasanaethau ariannol yr UE. Nid yw'n rhan o'r system pasbortio sy'n lleihau'r rhwystrau rheoliadol, gweithredol a chyfreithiol rhag darparu gwasanaethau ariannol ar draws yr UE (gweler Blwch 5). Am nad yw'r Swistir wedi gwneud cytundeb dwyochrog â'r UE ar fancio, rhaid i fanciau'r Swistir sefydlu is-gwmni mewn gwlad sydd yn yr UE/AEE, fel y DU, er mwyn cael hawliau pasbortio ar gyfer gwasanaethau ariannol. Byddai'n rhaid i fanciau'r DU wneud yr un peth yng ngwledydd yr UE pe byddem yn gadael yr UE.

### Costau a Rhwymedigaethau

**3.30** Mae cytundebau'r Swistir yn rhai digyfnewid. Er bod Norwy'n gorfod sicrhau bod ei chyfraith ddomestig yn cydymffurfio ag unrhyw ddeddfwriaeth a wnaeth yr UE sy'n rhan o Gytundeb yr AEE, nid yw'r un rhwymedigaeth uniongyrchol ar y Swistir. Ond os bydd yn methu â chyflwyno deddfwriaeth ddomestig sy'n adlewyrchu rheolau penodol a wnaeth yr UE, gall yr UE atal y Swistir rhag cael mynediad i'r rhannau cysylltiedig o'r Farchnad Sengl. Er mwyn osgoi hyn, yn y rhan fwyaf o achosion bydd y Swistir yn dewis cydymffurfio â

<sup>45</sup> Ar gael yn: <http://ec.europa.eu/trade/policy/countries-and-regions/countries/switzerland/>



chyfreithiau newydd yr UE wrth iddynt gael eu mabwysiadu. Mae hyn yn golygu, i bob pwrpas, fod y Swistir mewn sefyllfa debyg i Norwy – mae'n gorfod dilyn rheolau'r UE yn ei chyfreithiau ei hun. Rhai enghreifftiau o hyn yw rheolau ar gystadleuaeth, Cymorth Gwladwriaethol a rheoliadau amgylcheddol. O ganlyniad i hyn, rhaid i'r Swistir gydymffurfio â nifer mawr o gyfreithiau'r UE, ond heb fod â rhan mewn penderfynu ar y cyfreithiau hynny a heb fynediad llawn i farchnad yr UE.

**3.31** Mae'r Swistir y tu allan i'r Undeb Tollau a gall wneud ei chytundebau masnach ei hun â rhannau eraill o'r byd. Mae'r Swistir wedi gwneud 29 o gytundebau o'r fath, yn cynnwys 41 o wledydd<sup>46</sup> (mewn cymhariaeth â hyn, mae'r UE wedi gwneud cytundebau sy'n cynnwys 53 o farchnadoedd). Yn 2014, daeth Cytundeb Masnach i rym rhwng y Swistir a Tsieina. O dan y cytundeb hwn, rhaid i'r Swistir leihau tariffau ar bron yr holl allforion o Tsieina ar unwaith. Yn gyfnewid am hyn, bydd 84 y cant o allforion y Swistir i Tsieina wedi'u hesemptio rhag tariffau, ond bydd y gostyngiadau'n cael eu cyflwyno'n raddol dros gyfnod o bymtheng mlynedd hyd ddiwedd y 2020au.<sup>47</sup>

**3.32** Mae'r Swistir wedi gwneud trefniadau tebyg i Norwy ar ffiniau a chydweithredu rhwng heddluoedd. Yn 2008, dewisodd y Swistir ymuno ag ardal ddi-ffiniau Schengen. Mae'n cymryd rhan yn nhrefniadau'r UE ar gyfer ceiswyr lloches, o dan Reoliad Dulyn. Mae gan y Swistir hawl i ddefnyddio cronfa ddata System Wybodaeth Schengen II, i gael data am weithrediadau sy'n ymwneud â symudiadau teithio rhai sydd o dan amheuaeth o fod yn derfysgwyr neu droseddwyr. Er hynny, nid yw'n cymryd rhan yn y System Wybodaeth Cofnodion Troseddol Ewropeaidd. Nid yw'n cymryd rhan chwaith yn y Warant Arestio Ewropeaidd. Fel Norwy, mae'r Swistir yn ymwneud ag Europol, ond nid oes ganddi hawliau pleidleisio ac nid yw'n cael defnyddio System Wybodaeth Europol.

### **Dylanwad a Sofraniaeth**

**3.33** O ran polisi tramor, mae gan y Swistir draddodiad o fod yn wlad niwtral. Nid yw'n aelod o NATO, ac nid oedd yn aelod o'r Cenhedloedd Unedig tan 2002. Nid yw'n cymryd rhan mewn penderfyniadau ar y cyd yn yr UE ar bolisi tramor, er ei bod wedi mabwysiadu'r un safbwyntiau â gwledydd yr UE ar faterion fel sancsiynau yn erbyn Rwsia ac Iran. Mae'r Swistir hefyd wedi secondio personél i genadaethau siflaidd a milwrol yr UE.

**3.34** Nid yw'r Swistir wedi'i chynrychioli yn sefydliadau'r UE ac nid yw'n cymryd rhan ym mhrosesau deddfu'r UE. Nid oes hawl gan y Swistir i gael ei chynnwys mewn ymgynghori ar gyfreithiau sydd wedi'u drafftio gan y Comisiwn Ewropeaidd. Nid yw'n cael dim cyfle bron i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth yr UE. Mae'r Swistir yn dod o dan awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop mewn rhai meysydd, fel hedfan sifil. Nid yw hyn yn wir am feysydd eraill, ond mae hyn yn destun anghydfod â'r UE sydd wedi'i gwneud yn rhan ganolog o'r negodi presennol ar gytundeb sefydliadol newydd y dylai'r Swistir ddod o dan awdurdodaeth rwymol Llys Cyfiawnder Ewrop mewn meysydd ehangach.

**3.35** Mae'r Swistir yn cyfrannu i wariant yn yr UE. O dan y cytundebau dwyochrog, mae'r Swistir yn gwneud cyfraniadau o wahanol fathau i'r UE. Mae'r Swistir wedi rhoi grantiau sylweddol i Aelod-wladwriaethau a ymunodd â'r UE er 2004. Yn ogystal â hyn, mae'r Swistir yn cyfrannu i wahanol raglenni sy'n cael eu hariannu o gyllideb yr UE. Mae'r rhain yn cynnwys ymchwil, addysg a llywio â lloeren yn yr UE.<sup>48</sup>

<sup>46</sup> Ar gael yn: <http://www.seco.admin.ch/themen/00513/00515/01330/04619/?lang=en>

<sup>47</sup> Ar gael yn: [http://www.seco.admin.ch/themen/00513/02655/02731/04118/index.html?lang=en&download=NHZLpZeg7t,Inp6lONTU042l2Z6in1ad1lZn4Z2qZpnO2YUq2Z6gpJCGdYB3f2ym162epYbg2c\\_JjKbNoKSn6A--](http://www.seco.admin.ch/themen/00513/02655/02731/04118/index.html?lang=en&download=NHZLpZeg7t,Inp6lONTU042l2Z6in1ad1lZn4Z2qZpnO2YUq2Z6gpJCGdYB3f2ym162epYbg2c_JjKbNoKSn6A--)

<sup>48</sup> Ar gael yn: [https://www.bundespublikationen.admin.ch/cshop\\_mimes\\_bbl/2C/2C59E545D7371ED496BD738AE6FC37C1.pdf](https://www.bundespublikationen.admin.ch/cshop_mimes_bbl/2C/2C59E545D7371ED496BD738AE6FC37C1.pdf)

**3.36** Mae anghydfod ar hyn o bryd rhwng yr UE a'r Swistir am delerau eu perthynas. Prif bwnc yr anghydfod yw ymfudo, sydd wedi dod yn fater gwleidyddol sensitif yn y Swistir. Yn 2015 roedd bron 16 y cant o boblogaeth breswyl y Swistir yn wladolion o wledydd eraill yn yr UE, sy'n gyfran uwch nag yn y DU.<sup>49</sup> Yn Chwefror 2014, pleidleisiodd pobl y Swistir mewn refferendwm o blaid cyflwyno cwotâu ar gyfer ymfudo gan y gwladolion hyn i'r Swistir. Mae'r UE wedi'i gwneud yn glir bod hyn yn groes i'r cytundebau dwyochrog rhwng yr UE a'r Swistir, sy'n cynnwys gofyniad am hawl i bobl gael symud yn rhydd. Wrth ymateb, mae Cyngor yr Undeb Ewropeaidd wedi datgan ei farn yn glir ar y mater hwn yn Rhagfyr 2014: 'the free movement of persons is a fundamental pillar of EU policy ... the internal market and its four freedoms are indivisible'. Mewn ymateb i'r bleidlais yn y Swistir, mae'r UE wedi lleihau'r graddau y mae'r Swistir yn gallu manteisio ar raglenni addysgol a chyllid ar gyfer ymchwil yn yr UE. Mae'r UE hefyd wedi atal negodiadau ar fynediad ychwanegol i farchnad yr UE.<sup>50</sup> Pe byddai cwotâu ymfudo'n cael eu cyflwyno, byddai'r UE yn gallu dileu mynediad breintiedig y Swistir i Farchnad Sengl yr UE.

### Addasrwydd i'r DU

**3.37** Hyd yn oed pe gallem negodi trefniadau tebyg i rai'r Swistir, mae model y Swistir yn cynnwys nifer o'r anfoneision sydd hefyd ym model Norwy, gyda nifer bach o wahaniaethau.

**3.38** Er bod Norwy'n cael mynediad sylweddol i'r Farchnad Sengl, nid yw model y Swistir ond yn rhoi mynediad rhannol ar gyfer nwyddau, a mynediad mwy cyfyngedig ar gyfer gwasanaethau, ac nid yw sectorau fel bancio a gwasanaethau proffesiynol wedi'u cynnwys yn y cytundebau dwyochrog.

**3.39** Gan fod economi'r DU yn amrywiol, ni fyddai'r trefniant hwn yn gweithio'n dda. Gwasanaethau yw bron 80 y cant o economi'r DU, felly byddai unrhyw rwystrau'n amharu ar y sector hwn. Os nad oedd mesurau pasbortio ar gael, er enghraifft, byddai hyn yn her i sector gwasanaethau ariannol y DU. Ac fe fyddai ein cwmnïau gweithgynhyrchu'n gweld cynnydd mewn costau o fod y tu allan i'r Undeb Tollau, o ganlyniad i archwiliadau mewn tollfeydd a gofynion o ran Rheolau Tarddiad, yn enwedig cwmnïau sy'n rhan o gadwynau cyflenwi rhyngwladol fel y diwydiant ceir. Ar gyfartaledd, mae 23 y cant o werth allforion y DU yn deillio o gydrannau tramor.<sup>51</sup>

**3.40** Pe byddai'r DU yn gadael yr UE, yna byddai'r holl gytundebau masnach presennol â thrydedd wledydd yn dod i ben drwy'r broses ymadael. Mae hyn yn golygu na fyddem yn gallu manteisio bellach ar y cytundebau masnach y mae'r UE wedi'u negodi â 53 o farchnadoedd fel Mecsico, De Affrica neu Dde Korea, a'r rheini y mae'n eu negodi ag UDA a Japan ar hyn o bryd. Byddai'r DU yn ceisio negodi trefniadau yn eu lle, ond byddai hyn yn cymryd blynyddoedd.

**3.41** Os oedd y DU yn yr un sefyllfa â'r Swistir, bob tro yr oedd y rheolau hyn yn newid, byddai angen i ni ddiweddarau ein deddfwriaeth ddomestig i gadw ein mynediad i'r farchnad. Dros amser, byddai hyn yn cael effaith niweidiol gynyddol ar economi'r DU, gan na fyddai fawr o ddylanwad gan Lywodraeth y DU wrth geisio sicrhau bod rheolau newydd yn addas i gwmnïau'r DU. Cyn hir, bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cynnig deddfwriaeth newydd ar feysydd fel gwasanaethau cyfreithiol, busnes ac ariannol. Wrth fod o fewn yr UE, mae

<sup>49</sup> Data poblogaeth Eurostat.

<sup>50</sup> Mae'r casgliadau gan y Cyngor y cyfeiriwyd atynt a dogfennau cysylltiedig eraill ar gael yn [http://eeas.europa.eu/switzerland/index\\_en.htm](http://eeas.europa.eu/switzerland/index_en.htm)

<sup>51</sup> Amcangyfrifon BIS ar gyfer 2011 wedi'u seilio ar gronfa ddata Masnachu mewn Gwerth Ychwanegol yr OECD.



gennym lais dylanwadol mewn penderfyniadau ar y ddeddfwriaeth hon. O fod y tu allan, ni fyddai gennym fawr o ddylanwad na gallu i geisio atal mesurau a fyddai'n rhoi ein cwmnïau ni o dan anfantais. Byddai cwmnïau yn y DU sy'n cynhyrchu nwyddau fel ceir a chynhyrchion cemegol neu fferyllol yn gallu wynebu problemau wrth gael mynediad i'r Farchnad Sengl wrth i safonau'r DU a'r UE ar gyfer cynhyrchion ymbellhau oddi wrth ei gilydd dros amser.

**3.42** Yn fwy cyffredinol, byddai perthynas â'r UE a oedd wedi'i seilio ar fodel y Swistir yn gwanhau ein dylanwad yn y byd ac yn rhoi llai o allu i ni gydweithredu mewn mesurau sy'n hyrwyddo ein diogelwch. Er y byddai'r DU yn parhau'n ddylanwadol ar lefel ryngwladol fel aelod parhaol o Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig a'r economi bumed fwyaf yn y byd, ni fyddem bellach yn gallu hyrwyddo safbwyntiau cyffredin yn Ewrop tuag at wledydd fel Iran neu Rwsia, na defnyddio pwysau economaidd a gwleidyddol yr UE i hybu ein buddiannau rhyngwladol. Ni fyddai Prif Weinidog y DU yn bresennol wedyn yng nghyfarfodydd y Cyngor Ewropeaidd. Byddem yn colli ein statws arbennig presennol sy'n rhoi hawl i ni ddewis pa fesurau Cyfiawnder a Materion Cartref y byddwn yn cymryd rhan ynddynt. Byddai'n anodd ail-greu cydweithredu o'r fath drwy drefniadau newydd â'r UE. Byddai hyn yn effeithio ar nifer o drefniadau allweddol ar gyfer cydweithredu rhwng heddluoedd a barnwyr.

**3.43** Nid yw'n debygol y gallai'r DU sicrhau trefniant fel un y Swistir. Hyd yn oed os oeddem am wneud hynny, mae'n annhebygol y byddai'r Aelod-wladwriaethau a oedd yn aros yn yr UE yn barod i gynnig trefniant tebyg i'r DU. Mae'r cytundebau dwyochrog rhwng yr UE a'r Swistir yn gymhleth, ac yn fwyfwy dadleuol yn yr UE ac yn y Swistir. Mae'r UE a'r Swistir ill dau'n codi amheuan ynghylch hyfywedd y model hwn. Yn 2010, dywedodd Cyngor yr UE fod model y cysylltiadau rhwng yr UE a'r Swistir yn "complex and unwieldy to manage and [it] has clearly reached its limits".<sup>52</sup> A beth bynnag, cymerwyd blynyddoedd lawer i negodi'r set gymhleth o gytundebau dwyochrog rhwng y Swistir a'r UE.

Twrci

|                       |                               | Mynediad i'r Farchnad Sengl ar gyfer nwyddau a gwasanaethau |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
|-----------------------|-------------------------------|-------------------------------------------------------------|---------------------------------|--------------------------------------|----------------------|-------------------------------|-----------------------------|----------------------------|-------------------------|-----------------------|
|                       | Pleidleisio ar gyfraith yr UE | Masnachu heb dariffau                                       | Undeb Tollau a masnachu allanol | Triniaeth gyfartal ar gyfer busnesau | 'Undeb agosach fyth' | Cyfiawnder a Materion Cartref | Pobl yn cael symud yn rhydd | Ardal ddi-ffiniau Schengen | Cyfrannu i gyllid yr UE | Aelod o Ardal yr Ewro |
| Aelodaeth y DU o'r UE |                               |                                                             |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
| Twrci                 |                               |                                                             |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |

Prif nodweddion model Twrci

Mynediad

**3.44** Mae perthynas Twrci â'r UE wedi'i seilio ar gytundeb economaidd ac ar ei hymgais i ddod yn aelod o'r UE. Mae'r UE a Thwrci wedi gwneud Cytundeb Cysylltu wedi'i seilio ar fasnach a'r economi (sy'n cael ei alw'n Gytundeb Ankara) er 1963. Yn ogystal â hyn, mae Twrci wedi cymryd rhan mewn Undeb Tollau â'r UE ers diwedd 1995. Mae hefyd wedi bod yn ymgeisydd am aelodaeth o'r UE er 1999. Dechreuwyd y negodiadau derbyn yn 2005, ac maent yn parhau ac yn debygol o bara am gyfnod hir. Hyd yn hyn, dim ond ar un rhan o'r trefniadau derbyn (a elwir yn Benodau) y cafwyd cytundeb drwy negodi, o blith 35 y mae'n rhaid cytuno arnynt cyn y gall Twrci ymuno â'r UE. Ar ben hyn, mae pob Aelod-wladwriaeth bresennol (yn cynnwys y DU) yn gallu rhoi fetó ar bob Pennod.

52 UN COMTRADE.

**3.45** Mae Twrci wedi cael mynediad rhannol i Farchnad Sengl yr UE. Mae'r trefniadau'n ymwneud â nwyddau diwydiannol a nwyddau amaethyddol a broseswyd, felly nid oes angen archwiliadau mewn tollfeydd o'r cynhyrchion hyn. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau'n cynnwys nwyddau amaethyddol crai na gwasanaethau. Mewn meysydd lle mae Twrci'n cael mynediad i farchnad yr UE, mae'n ofynnol iddi orfodi rheolau sy'n cyfateb i'r rheini yn yr UE. Mae hyn yn cynnwys rheolau sy'n ymwneud â chystadleuaeth, cynhyrchion a'r amgylchedd. Mae hefyd yn ofynnol i Dwrci gysoni rheolau ar Gymorth Gwladwriaethol (cymorth gan lywodraeth i fusnesau) â rheolau'r UE. Mae'r Cytundeb â Thwrci'n rhoi hawliau ymfudo cyfyngedig i wladolion Twrci gael preswyllo yn yr UE.

### **Costau a rhwymedigaethau**

**3.46** Er bod Twrci'n gallu gwneud cytundebau masnach â gwledydd y tu allan i'r UE, gan ei bod yn rhan o'r Undeb Tollau, rhaid i dariffau allanol Twrci gael eu cysoni â thariffau'r UE. Mae hyn yn cyfyngu ar allu Twrci i wneud cytundebau masnach. Os bydd yr UE yn gwneud cytundeb masnach â thrydedd wlad, fel De Korea, rhaid i Dwrci roi mynediad i'w marchnad ei hun i'r wlad honno ar yr un telerau. Ond nid yw'r rhwymedigaeth hon yn gweithio'r ddwy ffordd. Ni fydd yn ofynnol i'r drydedd wlad agor ei marchnad ar yr un telerau i allforion o Dwrci. Yn lle hynny, rhaid i Dwrci negodi cytundebau masnach ar wahân â'r gwledydd hyn.

### **Dylanwad a sofraniaeth**

**3.47** Mae'r cydweithredu rhwng Twrci a'r UE ar ddiogelwch domestig a rhyngwladol yn gyfyngedig. Nid yw'n cymryd rhan mewn mesurau plismona a chyfiawnder troseddol yn yr UE. Gall Twrci fabwysiadu'r un safbwynt â'r UE ar faterion rhyngwladol, a bydd yn secondio personél i genadaethau milwrol a sifilaidd yr UE. Ond nid oes ganddi hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau ar gamau gweithredu o'r fath.

**3.48** Nid yw Twrci'n cymryd rhan mewn penderfyniadau yn yr UE. Nid yw'n cyfrannu i gyllideb yr UE. Gan ei bod yn ymgeisio i ddod yn aelod, mae'n derbyn cyllid oddi wrth yr UE. Mae hyn yn hybu diwygiadau mewn meysydd fel rheolaeth y gyfraith a chymdeithas sifil.

### **Addasrwydd i'r DU**

**3.49** Mae'r berthynas rhwng Twrci a'r UE wedi'i seilio ar ei statws fel marchnad sy'n datblygu a'i dyhead i ddod yn Aelod-wladwriaeth o'r UE. Yn hanesyddol, mae economi Twrci wedi dibynnu ar amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu ac ychydig o wasanaethau y mae'n eu hallforio i'r UE, tra bo economi'r DU yn fawr a datblygedig, gyda sector gwasanaethau sy'n creu bron 80 y cant o'r CMC.

**3.50** Er bod Twrci'n rhan o Undeb Tollau'r UE (sy'n cynnwys gofynion symlach o ran Rheolau Tarddiad), mae hawl Twrci i gael mynediad i'r Farchnad Sengl yn fwy cyfyngedig nag un y DU. Yn benodol, mae Twrci'n cael mynediad llawn i farchnad yr UE ar gyfer nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu a chynhyrchion amaethyddol a broseswyd, ond nid ar gyfer amaethyddiaeth, gwasanaethau na chaffael cyhoeddus. Rhaid i Dwrci orfodi rheolau sy'n cyfateb i ddeddfwriaeth yr UE mewn meysydd lle mae'n cael mynediad i'r Farchnad Sengl, ond nid yw'n cael pleidleisio ar y ddeddfwriaeth honno.

**3.51** Yn ogystal â hynny, o dan y model hwn byddem yn colli ein pŵer i benderfynu ar dariffau allanol yr UE, gan y byddem yn rhan o'r Undeb Tollau. Yn lle hynny, byddem yn gorfod agor ein ffiniau i wledydd yr oedd yr UE wedi gwneud cytundebau masnach â nhw, heb y sicrwydd o gael yr un mynediad i'w marchnadoedd nhw. Byddai sefyllfa o'r fath yn rhoi economi'r DU o dan anfantais sylweddol.

Cytundebau Masnach Rydd: Canada

|                       |                               | Mynediad i'r Farchnad Sengl ar gyfer nwyddau a gwasanaethau |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
|-----------------------|-------------------------------|-------------------------------------------------------------|---------------------------------|--------------------------------------|----------------------|-------------------------------|-----------------------------|----------------------------|-------------------------|-----------------------|
|                       | Pleidleisio ar gyfraith yr UE | Masnachu heb dariffau                                       | Undeb Tollau a masnachu allanol | Triniaeth gyfartal ar gyfer busnesau | 'Undeb agosach fyth' | Cyfiawnder a Materion Cartref | Pobl yn cael symud yn rhydd | Ardal ddi-ffiniau Schengen | Cyfrannu i gyllid yr UE | Aelod o Ardal yr Ewro |
| Aelodaeth y DU o'r UE |                               |                                                             |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
| Canada                |                               |                                                             |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |

Prif nodweddion model Canada

Mynediad

3.52 Mae Cytundebau Masnach Rydd yn creu perthynas lai agos â'r UE. Mae hyn yn golygu bod llai o rwymedigaethau, ond llai o fynediad i'r Farchnad Sengl. Bydd gwledydd yn cytuno â'r UE ar lefelau'r mynediad i'r farchnad a'r tariffau, ac yn gosod cwotâu ar gyfer masnachu rhyngddynt. Os yw allforwyr yn dymuno gwerthu i Farchnad Sengl yr UE, rhaid iddynt gydymffurfio â rheolau'r Farchnad Sengl yn yr un ffordd ag allforwyr yn Norwy a'r Swistir.

3.53 Mae'r UE wedi gwneud cytundebau masnach â 53 o farchnadoedd. Mae'r cytundebau hyn yn rhoi gwahanol lefelau o fynediad i'r farchnad. Yn achos yr UE, maent yn cael eu negodi gan y Comisiwn, ar ran yr UE a'i Aelod-wladwriaethau. Rhaid i'r cytundeb gael ei gymeradwyo wedyn gan Aelod-wladwriaethau, a Senedd Ewrop.

3.54 Mae'r cytundeb rhwng yr UE a Chanada yn mynd ymhellach na'r un cytundeb masnach arall y mae'r UE wedi'i wneud. Roedd y negodiadau rhwng yr UE a Chanada wedi para saith mlynedd ac fe'u cwblhawyd yn 2014.<sup>53</sup> Cyn i'r cytundeb ddod i rym, rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan yr UE (gan gynnwys y Cyngor a Senedd Ewrop). Wedi iddo ddod i rym, mae'r cytundeb yn darparu ar gyfer dileu'r holl dariffau yn raddol ar nwyddau diwydiannol a'r rhan fwyaf o nwyddau amaethyddol sy'n dod i mewn i'r UE.<sup>54</sup> Mae'r cytundeb hwn yn ymdrin â nifer o fesurau gwahaniaethol uniongyrchol eraill fel cwotâu a chymorthdaliadau ar gyfer nwyddau diwydiannol.

3.55 Er hynny, mae'r Cytundeb Masnach rhwng yr UE a Chanada yn cynnig llai o lawer o fynediad i'r Farchnad Sengl nag y mae'r DU yn ei gael ar hyn o bryd drwy ein statws arbennig yn yr UE. Yn benodol:

- Rheolau Tarddiad. Mae masnach rhwng yr UE a Chanada wedi'i rhwymo gan Reolau Tarddiad. Mae hyn yn golygu bod cwmnïau yng Nghanada'n gorfod profi bod cyfran ddigonol o'r cynnyrch wedi'i gwneud yn wreiddiol yng Nghanada er mwyn bod yn gymwys i gael cyfraddau tariff ffafraethol. Mae cydymffurfio â'r rheolau hyn yn gosod baich ychwanegol ar fusnesau. Mewn adroddiad a gomisiynwyd gan BIS yn 2013 oddi wrth y Centre for Economic Policy Research, amcangyfrifwyd mai'r gost i fusnesau'r DU am gyflawni gofynion Rheolau Tarddiad ar gyfer masnach rhwng y DU a'r UE fyddai tua £3 biliwn y flwyddyn.<sup>55</sup> Ar hyn o bryd, nid yw cwmnïau'r DU yn gorfod cwrdd â'r gofynion hyn wrth fasnachu â'r UE.

<sup>53</sup> EU–Canada Comprehensive Economic and Trade Agreement (CETA): Ar gael yn: <http://ec.europa.eu/trade/policy/in-focus/ceta/>

<sup>54</sup> "Technical Summary of Final Negotiated Outcomes: Canada-European Union Comprehensive Economic and Trade Agreement" (Hydref 2013), Llywodraeth Canada.

<sup>55</sup> Ar gael yn: [https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/271784/bis-14-512-trade-and-investment-balance-of-competence-review-project-report.pdf](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/271784/bis-14-512-trade-and-investment-balance-of-competence-review-project-report.pdf)

- Gorfodi. Ar hyn o bryd, mae cwmni o'r DU sy'n gweithredu yn y Farchnad Sengl yn gallu dod ag achos yn erbyn arferion gwahaniaethol neu wrthgystadleuol drwy lysoedd domestig yr Aelod-wladwriaeth lle torrwyd y rheolau. Mae Llywodraeth y DU neu'r Comisiwn Ewropeaidd hefyd yn gallu dod ag achos i Lys Cyfiawnder Ewrop i ddiogelu buddiannau cwmnïau. Bydd penderfyniadau gan y llys hwn, fel y dyfarniad diweddar o blaid y DU ar dai clirio sy'n cynnal masnach mewn ewros o leoliadau y tu allan i Ardal yr Ewro, yn gymwysadwy ar unwaith yn yr holl Aelod-wladwriaethau a byddant yn creu cynsail cyfreithiol sy'n gymwys mewn achosion ar ôl hynny. Mewn gwrthgyferbyniad â hyn, o dan y Cytundeb rhwng yr UE a Chanada, ni fyddai cynifer o opsiynau ar gael i gwmni o Ganada sy'n masnachu yn yr UE wrth geisio amddiffyn ei fuddiannau. Os defnyddir yr un model ag sydd mewn cytundebau masnach eraill, pe byddai'r hawliau a roddwyd i gwmni o Ganada yn cael eu torri, gallai Llywodraeth Canada ddwyn achos ar ran y cwmni drwy dribiwnlys cyflafareddu a sefydlwyd o dan y cytundeb masnach.
- Gwasanaethau ariannol. O fewn yr UE, mae cwmnïau ariannol sydd wedi'u lleoli yn y DU yn gallu gwerthu eu gwasanaethau'n uniongyrchol i wledydd eraill yr UE drwy basbortio (gweler Blwch 5). Nid yw darpariaethau o'r fath wedi'u cynnwys yn y cytundeb rhwng yr UE a Chanada, nac mewn unrhyw Gytundebau Masnach Rydd eraill y mae'r UE wedi'u gwneud. Yn lle hynny, bydd cwmnïau ariannol o Ganada, fel banciau a chwmnïau yswiriant, yn gorfod sefydlu is-gwmnïau lleol o fewn marchnad yr UE a gweithredu o dan reoliadau'r UE ac unrhyw ofynion lleol er mwyn cael y mesurau pasbortio. Byddai gofynion tebyg yn gallu cyfyngu'n sylweddol ar gwmnïau'r DU o'u cymharu â'r trefniadau pasbortio presennol.
- Gwasanaethau. O fewn yr UE, mae'r DU mewn lle i fanteisio ar ryddfrydoli pellach yn y Farchnad Sengl ar gyfer gwasanaethau o dan gynlluniau sydd wedi'u paratoi gan y Comisiwn Ewropeaidd presennol. Pe byddai holl farchnadoedd cenedlaethol yr UE ar gyfer gwasanaethau mor agored â'r pum marchnad sy'n perfformio orau yn Ewrop, byddai hyn yn ychwanegu 2 y cant at CMC y DU.<sup>56</sup> Mae'r Cytundeb Masnach rhwng yr UE a Chanada yn cynnig rhyddfrydoli mwy cyfyngedig. Bydd yr UE yn agor ei farchnad ar gyfer gwasanaethau yn sylweddol i gwmnïau o Ganada. Ond mae nifer o sectorau allweddol sydd heb eu cynnwys, fel y sector clyweledol a'r rhan fwyaf o'r sectorau trafnidiaeth awyry. Yn 2014, cafwyd gwarged o £17 biliwn wrth allforio gwasanaethau o'r DU i'r UE.<sup>57</sup> Byddai telerau tebyg i'r Cytundeb rhwng yr UE a Chanada yn amharu ar y cydbwysedd hwn gan y byddent yn effeithio ar ein masnach. Er enghraifft, mae cwmnïau hedfan rhad yn cael mynediad llawn ar hyn o bryd i'r farchnad gwasanaethau awyry ryddfrydol yn yr UE, sydd wedi creu amgylchedd lle mae nifer y llwybrau rhwng dinasoedd Ewrop wedi cynyddu gan leihau costau teithio.
- Gosod a chydymffurfio â'r rheolau. Yn yr UE, mae rheoliadau cyffredin yn gymwys i gynhyrchion sy'n cael eu gwerthu ym mhob un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau. Mae'r rhain yn amddiffyn defnyddwyr ac yn sicrhau nad yw ein diwydiannau'n cael eu cosbi'n annheg. Er enghraifft, rhaid i deganau a chynhyrchion trydanol gydymffurfio â rheolau diogelwch yr UE. Bydd pob awdurdod cenedlaethol yn asesu cynhyrchion

<sup>56</sup> Y Comisiwn Ewropeaidd, 2012. 'The Economic Impact of the Services Directive: A first assessment following implementation'. Mae'r ffigur hwn yn mesur y twf dichonol o ganlyniad i well gweithredu ar Gyfarwydddeb Gwasanaethau 2006, y ddeddfwriaeth bresennol sy'n rheoli'r farchnad sengl ar gyfer gwasanaethau. Gellir disgwyl y bydd ymyriadau drwy ddeddfwriaeth yn y dyfodol i agor marchnadoedd yn dod â manteision ychwanegol.

<sup>57</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book (Hydref 2015).

i sicrhau eu bod yn cydymffurfio, a bydd yr asesiadau hyn yn cael eu cydnabod gan Aelod-wladwriaethau eraill. Mae hyn yn ei gwneud yn haws i fusnesau fasnachu. Gall y DU ddylanwadu ar y broses o osod y rheolau ac asesu a ydynt wedi'u bodloni neu beidio. Yn ogystal â hyn, gan fod yr UE yn cynnwys chwarter o economi'r byd, mae nifer o wledydd yn mabwysiadu rheolau'r UE yn wirfoddol er mwyn hwyluso masnach. Er enghraifft, mae Awstralia'n seilio ei rheoliadau ar allyriadau cerbydau ar reolau'r UE. O dan y Cytundeb rhwng yr UE a Chanada, dim ond mewn lleiafrif o gategoriâu cynhyrchion y mae'r UE wedi cydnabod yr asesiadau gan Ganada. Oherwydd hyn, mae nifer mawr o gynhyrchion o Ganada, fel cyfarpar meddygol, y bydd yn rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan awdurdodau'r UE cyn eu gwerthu yn y Farchnad Sengl. Pe byddai'r DU yn masnachu â'r UE ar delerau tebyg i rai Canada, byddai hyn yn rhoi nifer mawr o'n cwmnïau o dan anfantais

- Amaethyddiaeth. Mae tariffau wedi'u dileu yn y rhan fwyaf o feysydd, ond nid ym mhob un. Ar y dechrau, ni fydd Canada ond yn cael allforio cwotâu bach o ferdys wedi'u prosesu a phenfreision wedi'u rhewi: os allforir mwy na hyn, bydd tariff o 20 y cant ar y cyntaf a 7.5 y cant ar yr ail. Bydd tariffau'r UE ar gynhyrchion pysgod yn cael eu dileu'n raddol dros saith mlynedd.<sup>58</sup> Cyflwynir cwotâu ar gyfer allforio cynhyrchion eraill, fel cig eidion a phorc. Er enghraifft, ni fydd Canada ond yn cael allforio 50,000 o dunelli o gig eidion i'r UE. Bydd yn rhaid iddi dalu tariffau ar feintiau mwy na hynny. Mae mwy na 90 y cant o allforion y DU o gig eidion (92,000 o dunelli) a chig oen (75,000 o dunelli) yn mynd i'r UE. Ar sail y cytundeb â Chanada, byddai allforion o gig eidion o'r DU i'r UE a oedd yn fwy na'r cwota y cytunwyd arno (o'r allforion cig eidion o £80 miliwn y mae'r DU yn eu gwerthu i'r UE bob blwyddyn) yn wynebu tariffau o fwy na 12 y cant. Ar ben hynny, gallent wynebu tollau ychwanegol o rai cannoedd o bunnoedd am bob 100 cilogram. Nid yw Canada yn allforio cig oen i'r UE. Ond gallem ddisgwyl i'r UE alw am drefniadau tebyg ar gyfer allforion cig oen o'r DU.<sup>59</sup>
- Ceir. O fewn yr UE, mae'r DU yn gwneud ac yn gwerthu ceir heb dariffau na rhwystrau rheoliadol. Mewn cyferbyniad â hyn, mae tariff o 10 y cant ar fewnforion ceir o wledydd y tu allan i'r UE sydd heb drefniadau masnach ffafraethol. Er y byddai'r tariff presennol ar geir, o dan y cytundeb rhwng yr UE a Chanada, yn gostwng o gyfartaledd o 11.2 y cant dros gyfnod pontio, byddai gweithgynhyrchwyr ceir y DU yn dal i wynebu'r fiwrocratiaeth a'r costau sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â Rheolau Tarddiad yr UE. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl y byddai allforwyr y DU yn dal i wynebu tariff o 10 y cant wrth allforio i'r UE, yn ôl y gyfran o'r cynnyrch terfynol a oedd wedi dod o'r tu allan i'r UE.
- Cydnabyddiaeth gyffredin i broffesiynau. Mae'r UE yn dechrau mabwysiadu trefniadau mwy hyblyg lle bydd gweithwyr proffesiynol yn gallu teithio a gweithio ar draws ffiniau. Mae meddygon, fferyllwyr, penseiri a milfeddygon yn gallu ymarfer yn ddirwystr ar draws yr UE, ar sail cymwysterau y maent wedi'u hennill yn eu gwlad wreiddiol. Mae darpariaeth fwy cyfyng o lawer ar gyfer hyn yn y Cytundeb Masnach rhwng yr UE a Chanada. Mae'n sefydlu fframwaith lle mae cymdeithasau proffesiynol yn gallu cydnabod cymwysterau ei gilydd, yn hytrach na rhoi hawl mynediad. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i gwmnïau o Ganada sefydlu is-gwmnïau lleol yng ngwahanol wledydd yr UE, a fydd yn cyflogi gweithwyr proffesiynol sydd â chymwysterau a enillwyd yn y wlad honno. Gall hyn fod yn gyfyngiad mawr ar

<sup>58</sup> Ar gael yn: [http://trade.ec.europa.eu/doclib/docs/2014/december/tradoc\\_152982.pdf](http://trade.ec.europa.eu/doclib/docs/2014/december/tradoc_152982.pdf)

<sup>59</sup> BWedi'i gyfrifo gan BIS ar sail data a gyflwynwyd gan Gyllid a Thollau EM sydd ar gael yn: [www.beefandlamb.ahdb.org.uk/markets/industry-reports/uk-statistics](http://www.beefandlamb.ahdb.org.uk/markets/industry-reports/uk-statistics)



fusnesau rhyngwladol mewn meysydd fel pensaernïaeth a'r gyfraith. Mae'n golygu y byddai'r cwmnïau hyn, wrth weithredu o fewn yr UE, yn gorfod derbyn safonau lleol a chyfyngiadau ar gyflogaeth sy'n wahanol i'r rhai yn y DU.

- Buddsoddi. Er bod rhai consesiynau, ar gyfer mwyngloddio wraniwm er enghraifft, bydd y cytundeb masnach rhwng yr UE a Chanada yn parhau â chyfyngiadau ar fuddsoddi mewn nifer o sectorau, gan gynnwys bancio a'r diwydiant awyrofod.

### Costau a Rhwymedigaethau

**3.56** Mae dewisiadau anodd ynglŷn â phob cytundeb masnach. Er mwyn dod i gytundeb rhwng yr UE a Chanada, roedd angen i'r ddwy ochr wneud consesiynau. Pe byddai'r DU yn cymryd rhan mewn negodiadau tebyg â'r UE, byddai angen iddi fod yn barod i gynnig consesiynau. Bydd negodwyr yn ceisio cael mynediad i farchnadoedd ei gilydd, yn gyfnewid am ildio mynediad i'w marchnad eu hunain. Mae pwysau economaidd yn cyfrif mewn negodiadau o'r fath. Mae economi'r UE ddeg gwaith yn fwy nag economi Canada. Roedd y ffaith bod ei farchnad yn fwy yn gymorth i'r UE wrth negodi. Mae economi'r DU yn fwy nag un Canada, ond nid yw ond oddeutu un rhan o bump o faint economi gweddill yr UE.<sup>60</sup>

**3.57** Bydd y cytundeb masnach rhwng yr UE a Chanada yn hwyluso symudiadau dros dro gan weithwyr proffesiynol hyfedr. Pe byddai cytundeb tebyg rhwng y DU a'r UE, byddai'n debygol o gynnwys rhwymedigaethau tebyg i'r rhain o leiaf.

### Addasrwydd i'r DU

**3.58** Byddai cytundeb masnach tebyg i hwnnw rhwng yr UE a Chanada yn rhoi telerau llai ffafriol ar gyfer mynediad i'r Farchnad Sengl na'r rhai sydd gennym nawr.

**3.59** Mae hyn yn arbennig o wir am wasanaethau sydd bron yn 80 y cant o economi'r DU. Nid yw'r Cytundeb Masnach rhwng yr UE a Chanada yn cynnig lefel o fynediad ar gyfer gwasanaethau sy'n agos i'r hyn sydd gennym o fewn yr UE, lle cafwyd cynnydd mawr eisoes ar ryddfrydoli gwasanaethau ar draws yr UE, a lle mae'r Cyngor Ewropeaidd wedi datgan ei fwriad i chwalu'r rhwystrau sy'n weddill.<sup>61</sup> Er enghraifft, mae sectorau cyfan (fel y sector clyweledol a'r rhan fwyaf o wasanaethau hedfan) wedi'u hepgor o'r cytundeb rhwng yr UE a Chanada ac nid yw cwmnïau gwasanaethau ariannol yn gallu manteisio ar drefniadau pasbortio o dan y cytundeb. Gan mai economi'r DU yw'r ail fwyaf ar gyfer allforio gwasanaethau masnachol yn y byd, a chan mai marchnad yr UE yw'r fwyaf ar gyfer y gwasanaethau yr ydym yn eu hallforio, byddai hyn yn cael effaith niweidiol ar economi'r DU.<sup>62</sup>

**3.60** Byddai gwahaniaeth hefyd o ran gallu cwmnïau'r DU i orfodi telerau'r cytundeb – o dan gytundeb tebyg i hwnnw â Chanada, ni allent fynd i Lys Cyfiawnder Ewrop, a byddent yn gorfod dibynnu yn lle hynny ar dribiwnlysoedd arbennig ar gyfer datrys anghydfodau sydd hefyd â llai o bwerau gorfodi. Felly byddai cwmnïau sy'n wynebu gwahaniaethu'n gorfod dilyn proses sy'n fwy costus, yn llai effeithiol ac yn cymryd mwy o amser.

**3.61** Ar sail y model ar gyfer yr UE a Chanada, byddai allforwyr cynhyrchion amaethyddol a gweithgynhyrchu yn y DU yn wynebu cyfyngiadau hefyd mewn rhai meysydd. Hyd yn oed os oedd tariffau wedi'u rhyddfrydoli, byddent yn dal i wynebu cwotâu, archwiliadau mewn tollfeydd a gofynion beichus y Rheolau Tarddiad. Ac wrth allforio o'r DU i'r UE, byddai cwmnïau'n gorfod cydymffurfio o hyd â safonau cynhyrchion a gofynion technegol yr UE, ond

<sup>60</sup> IMF World Economic Outlook (Hydref 2015).

<sup>61</sup> Y Cyngor Ewropeaidd, Chwefror 2016.

<sup>62</sup> Ar gael yn: [https://www.wto.org/english/res\\_e/statis\\_e/its2014\\_e/its14\\_world\\_trade\\_dev\\_e.htm](https://www.wto.org/english/res_e/statis_e/its2014_e/its14_world_trade_dev_e.htm) table 1.9

heb unrhyw ran i'r DU mewn gosod y safonau hynny. Byddai hyn i gyd yn gallu cael effaith ddrud ar nifer o sectorau, gan gynnwys gweithgynhyrchu ceir.

**3.62** Yn yr un modd â modelau'r Swistir a Norwy, ni fyddai dim neu nemor ddim llais gan y DU mewn penderfynu ar reolau yn y dyfodol. Wrth fod y tu allan, ni fyddai gennym fawr o ddylanwad a dim gallu i geisio atal mesurau a fyddai'n rhoi ein cwmnïau ni o dan anfantaes. Byddai sectorau gweithgynhyrchu fel y sectorau ceir a chynhyrchion fferyllol neu gemegol yn y DU yn gallu wynebu problemau wrth gael mynediad i'r Farchnad Sengl wrth i reolau'r DU a'r UE ar gyfer cynhyrchion ymbellhau oddi wrth ei gilydd dros amser, ac mae'n bosibl y byddai cwmnïau sy'n allforio i'r UE yn gorfod cydymffurfio â safonau gwahanol, lle nad ydynt ond yn gorfod cydymffurfio ag un safon ar hyn o bryd.

**3.63** O dan y cytundeb rhwng yr UE a Chanada, nid yw Canada o dan rwymedigaeth i gyfrannu i gyllideb yr UE. Ac am nad yw Canada'n rhan o'r Farchnad Sengl, nid yw'n gorfod derbyn hawl pobl i symud yn rhydd, er bod y cytundeb yn cynnwys gofyniad i dderbyn trefniadau ar gyfer symudiadau dros dro gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn sectorau gwasanaethau, sy'n cael eu galw'n drefniadau 'Mode 4' yn rheolau Sefydliad Masnach y Byd (o dan y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau).<sup>63</sup>

**3.64** Yn fwy cyffredinol, byddai perthynas â'r UE wedi'i seilio ar fodel Canada, sy'n ymwneud â'r economi'n unig, yn lleihau ein gallu i gydweithredu mewn mesurau sy'n hybu ein diogelwch. Er y byddai'r DU yn parhau'n ddylanwadol ar lefel ryngwladol fel aelod parhaol o Gyngor Diogelwch y Cenhedloedd Unedig a'r economi bumed fwyaf yn y byd, ni fyddem bellach yn gallu ffurfio safbwyntiau cyffredin yn yr UE tuag at wledydd fel Iran neu Rwsia, na defnyddio pwysau economaidd a gwleidyddol yr UE i hybu ein buddiannau rhyngwladol. Ac ni fyddai cytundeb o'r fath yn darparu ar gyfer y trefniadau sydd gennym ar gyfer cydweithredu gan heddluoedd a barnwyr â'r UE er mwyn diogelwch y DU – byddai'n rhaid negodi'r rhain ar wahân a hyd yn oed wedyn byddent yn annhebygol o gynnwys pob agwedd ar y cydweithredu presennol.

**3.65** Ar y cyfan, byddai Cytundeb Masnach Rydd tebyg i'r un rhwng yr UE a Chanada yn rhoi telerau llai manteisiol ar gyfer masnach y DU na'r rhai sydd gennym ar hyn o bryd, a byddai problemau penodol i gwmnïau gwasanaethau yn y DU o ran colli mynediad i'r Farchnad Sengl.

<sup>63</sup> Ar gael yn: [https://www.wto.org/english/tratop\\_e/serv\\_e/mouvement\\_persons\\_e/mouvement\\_persons\\_e.htm](https://www.wto.org/english/tratop_e/serv_e/mouvement_persons_e/mouvement_persons_e.htm)



## Blwch 7: Gweithgynhyrchu ceir: yr effaith o adael yr UE

Mae mynediad i'r Farchnad Sengl yn bwysig i sector gweithgynhyrchu'r DU. Y llynedd roedd y DU wedi allforio'r nifer mwyaf o geir erioed (1.23 miliwn). Aeth mwy na hanner y rhain i farchnad yr UE.<sup>64</sup> Mae'r diwydiant yn cyflogi 147,000 o bobl yn uniongyrchol,<sup>65</sup> ac yn cynnal 300,000 o swyddi yn y gadwyn gyflenwi ehangach ar ben hynny.<sup>66</sup> Gogledd-ddwyrain Lloegr yw un o'r rhanbarthau sy'n allforio mwyaf i'r UE ar gyfartaledd,<sup>67</sup> lle cafwyd buddsoddi mawr o wledydd tramor gan gwmnïau cynhyrchu ceir Japan.

Pe byddai'r DU yn gadael yr UE, oni bai fod cytundeb ar fynediad ffafraethol wedi'i wneud drwy'r negodiadau ymadael, byddai gweithgynhyrchwyr ceir y DU yn wynebu tariff o 10 y cant ar allforion i'r UE. Yn 2015 roedd allforion ceir o'r DU i'r UE yn werth £10.2 biliwn.<sup>68</sup> Byddai tariff o 10 y cant yn golygu gordal o fwy nag £1 biliwn. Ar ben hynny, pe byddai'r DU yn gorfod gosod tariffau o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd, byddai cydrannau a gafwyd o'r UE yn dod yn ddrutach i weithgynhyrchwyr cerbydau yn y DU. Gan fod mwy na 40 y cant o'r cydrannau a brynir gan y gweithgynhyrchwyr hyn yn dod o'r UE, gallai hyn greu anfantais bellach i'r allforwyr hynny.<sup>69</sup>

## C. Model Sefydliad Masnach y Byd yn unig

- Rheolau Sefydliad Masnach y Byd yw'r trothwy isaf. Hyn fyddai'r toriad mwyaf pendant oddi wrth yr UE, heb unrhyw fynediad ffafraethol i'r Farchnad Sengl, dim cydweithredu ehangach ar droseddu neu derfysgaeth, dim rhwymedigaethau i gyfrannu i gyllideb yr UE na hawl i bobl symud yn rhydd.
- Os na allem sicrhau cytundeb ar delerau gwell, byddem yn gorfod troi at y model hwn. Byddai hyn yn achosi ysgytwad mawr i economi'r DU, ac yn effeithio'n ddifrifol ar gwmnïau, defnyddwyr, swyddi a phrisiau.
- Byddai'r DU yn wynebu costau mawr ar unwaith yn ein cysylltiadau masnachu, gyda'r UE a'r byd ehangach. Pe byddai tariffau cyfatebol yn cael eu gosod ar fewnforion o'r UE, byddai'r nwyddau hyn yn fwy drud.
- Ni fyddai gwladolion y DU yn mwynhau'r hawliau sydd ganddynt ar hyn o bryd i fyw, gweithio a theithio yn yr UE.
- O dan reolau Sefydliad Masnach y Byd, ni fyddai'r DU na'r UE yn gallu cynnig gwell mynediad i'r farchnad i'w gilydd nag i holl aelodau eraill Sefydliad Masnach y Byd.
- Byddai ein mynediad breintiedig i 53 o farchnadoedd y tu allan i'r UE a negodwyd drwy Gytundebau Masnach Rydd yr UE yn dod i ben. Gallem geisio negodi cytundebau newydd, ond byddai hyn yn cymryd blynyddoedd. Byddai'n anodd sicrhau'r un telerau ag sydd gennym nawr.

<sup>64</sup> Ffigurau blynyddol Cymdeithas Gweithgynhyrchwyr a Masnachwyr Moduron.

<sup>65</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Workforce Jobs.

<sup>66</sup> Dadansoddiad BIS ar sail amcangyfrifon y Swyddfa Ystadegau Gwladol o luosyddion swyddi o dablau Mewnbwn-Allbwn Dadansoddol.

<sup>67</sup> Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Ystadegau Masnach Rhanbarthol.

<sup>68</sup> Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi, Ystadegau Masnach Rhanbarthol.

<sup>69</sup> Adroddiad gan KMPG yn 2014 i Gymdeithas Gweithgynhyrchwyr a Masnachwyr Moduron.


|                         |                               | Mynediad i'r Farchnad Sengl ar gyfer nwyddau a gwasanaethau |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
|-------------------------|-------------------------------|-------------------------------------------------------------|---------------------------------|--------------------------------------|----------------------|-------------------------------|-----------------------------|----------------------------|-------------------------|-----------------------|
|                         | Pleidleisio ar gyfraith yr UE | Masnachu heb dariffau                                       | Undeb Tollau a masnachu allanol | Triniaeth gyfartal ar gyfer busnesau | 'Undeb agosach fyth' | Cyfiawnder a Materion Cartref | Pobl yn cael symud yn rhydd | Ardal ddi-ffiniau Schengen | Cyfrannu i gyllid yr UE | Aelod o Ardal yr Ewro |
| Aelodaeth y DU o'r UE   |                               |                                                             |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |
| Sefydliad Masnach y Byd |                               |                                                             |                                 |                                      |                      |                               |                             |                            |                         |                       |

**3.66** Mae Sefydliad Masnach y Byd yn darparu fframwaith byd-eang ar gyfer cysylltiadau masnach rhwng gwledydd. Mae'r DU a gwledydd eraill yr UE yn aelodau o Sefydliad Masnach y Byd drwy eu hawl eu hunain. Pe na byddai trefniadau eraill wedi'u gwneud rhwng y DU a'r gwledydd a oedd yn aros yn yr UE, neu pe byddai'r cyfnod dwy flynedd o dan Erthygl 50 yn dod i ben (a heb gael ei ymestyn) cyn cytuno ar drefniadau eraill, byddem yn gorfod troi'n ôl at ein haelodaeth o Sefydliad Masnach y Byd i gael sail i'r berthynas masnachu â'r UE.

Prif nodweddion trefniant Sefydliad Masnach y Byd yn unig

Mynediad

**3.67** Mae gwledydd sydd â pherthynas wedi'i seilio ar delerau Sefydliad Masnach y Byd yn unig yn cael mynediad llai ffafriol o lawer i Farchnad Sengl yr UE. Mae'r UE yn gosod tariff allanol cyffredin ar wledydd y tu allan, heblaw'r rheini sydd wedi negodi cytundebau masnach ffafraethol ag ef. Mae'r tabl isod yn dangos y cyfraddau tariff cyfartalog y mae'r UE yn eu gosod ar categorïau cyffredinol lefel uchel. Gellir cael amrywiad mawr rhwng is-gategorïau o fewn pob categori. Ymysg y rhain, er enghraifft, mae tariff o 10 y cant ar fewnforion ceir, ac roedd tariffau ar gynhyrchion llaeth yn y sector amaethyddol yn 36.1 y cant ar gyfartaledd yn 2014.<sup>70</sup>



<sup>70</sup> Ffigur ar gyfer 2014 wedi'i gyfrifo gan Sefydliad Masnach y Byd.

**3.68** Os nad oedd cytundeb masnach ffafraethol wedi'i wneud, ni fyddai'n bosibl amrywio'r cyfraddau hyn ar gyfer y DU. O dan reolau Sefydliad Masnach y Byd, mae'n ofynnol i'r UE osod tariff allanol cyffredin yn unol ag egwyddor y 'Genedl Fwyaf Ffaffriedig', sy'n golygu bod aelodau Sefydliad Masnach y Byd yn gorfod cynnig yr un telerau i bob un o'r 161 o aelodau eraill yn Sefydliad Masnach y Byd.<sup>71</sup>

**3.69** Mae Sefydliad Masnach y Byd yn rheoli'r trefniadau ar gyfer cynnal masnach ryngwladol. Nid yw'n ymwneud â materion sy'n gysylltiedig â chydweithredu ar blismona, cyfiawnder troseddol, mesurau gwrthderfysgol a diogelwch, na pholisi tramor. Felly ni fyddai cysylltiadau wedi'u seilio ar aelodaeth o Sefydliad Masnach y Byd yn unig yn cynnwys cydweithredu yn y meysydd ehangach hyn.

### Rhwymedigaethau

**3.70** Y model Sefydliad Masnach y Byd yn unig sy'n gosod y lleiaf o rwymedigaethau uniongyrchol i'r UE. Nid yw gwledydd sy'n aelodau o Sefydliad Masnach y Byd sydd heb wneud cytundebau masnach ffafraethol â'r UE yn gorfod gweithredu deddfwriaeth yr UE. Nid yw penderfyniadau gan Lys Cyfiawnder Ewrop yn gymwys iddynt. Nid yw'n ofynnol iddynt gyfrannu i gyllideb yr UE, na derbyn rheolau'r UE ar hawl pobl i symud yn rhydd. Fodd bynnag, fe fyddai busnesau'r DU yn gorfod cydymffurfio â rheolau'r UE ar faterion fel yr amgylchedd a diogelwch er mwyn masnachu yn y Farchnad Sengl.

### Dylanwad a Sofraniaeth

**3.71** Ni fyddai trefniant Sefydliad Masnach y Byd yn rhoi unrhyw lais o gwbl mewn penderfyniadau gan yr UE. Gallai fod yn bosibl cael rhywfaint o ddylanwad anuniongyrchol drwy gysylltiadau diplomyddol a thrwy sefydliadau ryngwladol fel y G20, yr IMF a'r Cenhedloedd Unedig. Ond o'r holl fodolau sydd wedi'u disgrifio yn y papur hwn, trefniant o dan Sefydliad Masnach y Byd fyddai'n creu'r toriad mwyaf pendant oddi wrth yr UE.

**3.72** Yng nghyd-destun negodiadau masnach, fel aelod o Sefydliad Masnach y Byd, byddai'r DU yn un o 162 o aelodau. Ar y camau tyngedfennol mewn cylchoedd negodi masnach amlochrog, yr economïau mwyaf – UDA, Tsieina a'r UE – fydd yn fwyaf dylanwadol fel arfer.

**3.73** Mae Sefydliad Masnach y Byd yn darparu trefniadau mwy cyfyngedig o lawer na'r Fasnach Sengl i ddelio ag anghydfodau masnach. Nid yw busnesau'n gallu gorfodi eu hawliau'n uniongyrchol o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd. Dim ond Llywodraethau a all ddod ag achosion ar ran busnesau. Mae proses datrys anghydfodau Sefydliad Masnach y Byd yn feichus o ran amser ac adnoddau.

**3.74** Byddai'r DU hefyd yn colli'r fantais o ddylanwad yr UE cyfan wrth ddelio ag unrhyw anawsterau wrth fasnachu â thrydedd wledydd. Mae ysgrifennu a gorfodi rheolau masnach ryngwladol yn haws i flociau economaidd mwy. Gan fod yr UE yn cynnwys chwarter economi'r byd, mae ganddo gryn ddylanwad mewn negodiadau masnach a mesurau i orfodi cydymffurfiaeth â'r rheolau. Er enghraifft, mae'r UE wedi defnyddio ei ddylanwad fel un corff i osod tariffau rhag dympio mewnforion dur o Tsieina. Pe byddai'r DU yn ceisio cymryd camau tebyg ar ei phen ei hun, ni fyddent mor effeithiol (mae economi'r DU tua un rhan o chwech o economi gyfan yr UE, felly byddai effaith mesurau o'r fath yn llai hefyd i'r un graddau).

<sup>71</sup> O dan system gyffredinol Sefydliad Masnach y Byd ar gyfer ffafraeth, gallai'r DU ddewis parhau i roi tariffau ffafraethol ar fewnforion o wledydd sy'n datblygu.

## Addasrwydd i'r DU

**3.75** Byddai model Sefydliad Masnach y Byd yn dod â nifer o anafanteision sylweddol i'r DU. Yn bwysicaf oll, byddai ein cwmnïau'n colli pob math o fynediad breintiedig i'r Farchnad Sengl, ac i bob un o'r 53 o farchnadoedd y mae'r UE wedi gwneud Cytundebau Masnach Rydd â nhw. Byddai hyn yn cael effaith fawr iawn ar gwmnïau, allforion, buddsoddi a swyddi yn y DU.

**3.76** Heb negodi Cytundeb Masnach Rydd, ni fyddem bellach yn gallu defnyddio system tariffau yn ein masnach â'r UE sy'n wahanol i'r tariffau rydym yn eu gosod ar allforion pob un o aelodau eraill Sefydliad Masnach y Byd. A heb gael cytundeb, ni fyddai'r UE yn gallu rhoi cyfraddau i'r DU sy'n well na'r rhai y mae'n eu rhoi i bob aelod arall o Sefydliad Masnach y Byd ble bynnag y mae. Byddai gennym lai o allu i ddiogelu ein buddiannau masnachol rhag cystadleuwyr rhyngwladol. Ac ni fyddai gennym ddim dylanwad dros y rheolau ar gyfer y Farchnad Sengl.

**3.77** Byddai trefniant o dan Sefydliad Masnach y Byd yn unig yn creu cyfyng-gyngor mawr i'r DU ynghylch tariffau masnach. O fod y tu mewn i'r UE, nid oes unrhyw dariffau ar ein masnach â gwledydd eraill yr UE, rydym yn gosod tariffau cyffredin yr UE wrth fasnachu â gweddill y byd, ac rydym yn elwa o gytundebau masnach ffafraethol yr UE. O dan drefniant drwy Sefydliad Masnach y Byd, ni fyddem yn gallu gwahaniaethu fel hyn. Os nad oedd cytundebau masnach dwyochrog wedi'u gwneud, byddai'n rhaid i'r DU bennu un set gyffredinol o gyfraddau tariff. Byddai'n ofynnol i ni gynnwys y rhain mewn rhestr newydd o ymrwymïadau tariff i'w chyflwyno i Sefydliad Masnach y Byd. Byddai hyn yn waith cymhleth a oedd yn galw am adolygu pob llinell tariff – mwy na 5,000 – i bennu'r cyfraddau yr oedd y DU am eu gosod.<sup>72</sup>

**3.78** Byddai ymestyn y tariffau presennol hyn i gynnwys mewnforynion o'r UE yn gwneud y mewnforynion hyn yn ddrutach. Ar hyn o bryd maent yn fwy na hanner y mewnforynion sy'n dod i'r DU<sup>73</sup>. Yn ogystal â hyn, mae nifer o ddiwydiannau, gan gynnwys gweithgynhyrchwyr ceir, yn dibynnu ar gydrannau sy'n cael eu mewnforynion heb dariffau o'r Farchnad Sengl i gynnal cadwynau cyflenwi cymhleth. Byddai'r dull o gyfrifo prisiau'r gwahanol gydrannau hyn yn newid pe byddai tariffau'n cael eu hailgyflwyno. O ganlyniad i hyn, byddai goblygiadau pwysig i gystadleurwydd busnesau yn y DU. Gallai arwain at newid penderfyniadau ar fuddsoddi, gan gynnwys rhai gan fuddsoddwyr tramor sydd wedi ymsefydlu yn y DU. Dros amser, gallem gynnig gostwng tariffau'r DU wrth negodi cytundebau masnach newydd. Ond yn y tymor byrrach, byddai hyn yn amharu'n ddifrifol ar economi'r DU.

**3.79** Ar y llaw arall, byddai gostwng tariffau'n gwneud mewnforynion yn rhatach, ond nid oes sicrwydd y byddai gwledydd eraill yn gweithredu yn yr un modd. Pe byddem yn dewis dilyn y llwybr hwn, byddai angen i'r DU ostwng tariffau ar yr holl fewnforynion, ar gyfer yr UE a gweddill y byd fel ei gilydd. Os oeddem wedi gostwng tariffau eisoes, i roi mynediad heb dalu tollau i farchnad y DU, ni fyddai cymhelliant i wledydd eraill roi mynediad ffafraethol i'w marchnadoedd eu hunain i gwmnïau'r DU. Byddem wedi colli mantais bwysig mewn negodiadau masnach.

**3.80** Byddai'r DU yn gorfod dewis rhwng dau opsiwn cyferbyniol: gostwng tariffau ar gyfer holl wledydd y byd, neu gynyddu tariffau ar gyfer yr UE. Byddai'r opsiwn cyntaf yn tanseilio ein sefyllfa mewn negodiadau masnach yn y dyfodol. Byddai'r ail opsiwn yn cynyddu costau busnesau a defnyddwyr.

<sup>72</sup> Sefydliad Masnach y Byd. Ar gael yn : [https://www.wto.org/english/tratop\\_e/tariffs\\_e/tariff\\_data\\_e.htm](https://www.wto.org/english/tratop_e/tariffs_e/tariff_data_e.htm)

<sup>73</sup> Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Pink Book (Hydref 2015).

**3.81** Byddai effaith sylweddol ar y fasnach mewn gwasanaethau. Ar hyn o bryd, drwy ein haelodaeth o'r UE a Chytundebau Masnach Rydd yr UE, mae ein cwmnïau gwasanaethau'n gallu bod yn sicr o gael mynediad i farchnadoedd tramor ac, ar ôl cael mynediad, y byddant yn cael eu trin mewn ffordd deg ac anwahaniaethol. Heb gytundeb masnach ffafraethol, ni fyddai'r UE a phartneriaid rhyngwladol eraill ond yn gorfod rhoi mynediad i ni o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd sy'n deillio o'r Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau (GATS). Mae fframwaith y cytundeb hwn yn fwy elfennol o lawer, ac yn rhoi llai o fynediad o lawer.

**3.82** Byddai trefniant o dan Sefydliad Masnach y Byd yn effeithio ar ddefnyddwyr o'r DU a oedd yn teithio mewn gwledydd tramor. Roedd taliadau am drawsruddweithio wrth wneud galwadau ar ffôn symudol yn yr UE wedi gostwng 73 y cant rhwng 2005 a 2011, a byddant wedi'u dileu'n llwyr erbyn Mehefin 2017.<sup>74</sup> Byddai galwadau ar ffôn symudol mewn gwledydd tramor yn gallu bod yn ddrutach o lawer.<sup>75</sup> O fewn yr UE, mae hawl gan deithwyr i gael eu digolledu am ohirio teithiau awyren, drwy dalu am lety, prydau bwyd ac uchafswm o €600 o iawndal.<sup>76</sup> Mae darpariaethau tebyg yn gymwys i deithio ar draws ffiniau ar reilffyrdd, mewn bysiau ac ar longau fferi yn yr UE. Mae trefniadau digolledu hefyd ar gyfer canslo gwyliau pecyn. O dan fodel Sefydliad Masnach y Byd yn unig, ni fyddai gwladolion y DU sy'n teithio yn yr UE yn cael hawl awtomatig i dderbyn y buddion hyn.


**3.83** Byddem yn colli elfen bwysig yn y cydweithredu rhyngom a gwledydd yr UE ar blismona, cyfiawnder troseddol a mesurau gwrthderfysgol. Os oeddem am gael yr un math o drefniadau ag sydd gennym ar hyn o bryd ar gyfer cydweithredu â'r UE mewn meysydd fel rhannu gwybodaeth am droseddwyd a therfysgwyr, byddem yn gorfodi negodi trefniadau dwyochrog ar wahân. Fe gymerai amser i wneud hynny, fel y mae Norwy a'r Swistir wedi gweld, ac nid oes sicrwydd o gael cytundeb sy'n cynnwys yr holl drefniadau sydd gennym ar hyn o bryd.

**3.84** Ni fyddai'n ofynnol bellach i'r DU gynnal hawliau gwladolion yr UE a'r AEE i symud yn rhydd. Gellid gosod rheolau newydd sy'n gorfodi pob dinesydd tramor sydd am symud i'r DU i wneud cais am fisa a'i gael. Ond pe byddem yn gwneud hyn, gellid disgwyl i wledydd eraill osod cyfyngiadau tebyg ar wladolion y DU sy'n byw mewn Aelod-wladwriaethau eraill neu'n teithio iddynt. Byddai'n ofynnol o hyd i'r DU gydymffurfio â rhwymedigaethau Sefydliad Masnach y Byd ar gyfer ymfudo dros dro gan weithwyr proffesiynol. A gallem weld, wrth geisio negodi cytundebau masnach, fod gwledydd eraill fel Japan ac India, yn rhoi blaenoriaeth i fynediad i farchnad lafur y DU mewn Cytundebau Masnach Rydd.

<sup>74</sup> Ar gael yn: [http://europa.eu/youreurope/citizens/travel/money-charges/mobile-roaming-costs/index\\_en.htm](http://europa.eu/youreurope/citizens/travel/money-charges/mobile-roaming-costs/index_en.htm)

<sup>75</sup> Er enghraifft, byddai galw'r DU o Singapôr ar ffôn symudol o'r DU yn costio rhwng 80 ceiniog a £2 y funud i rywun sy'n talu am danysgrifiad misol (ar sail cyfraddau galwadau a ddyfynnwyd gan nifer o ddarparwyr yn y DU)

<sup>76</sup> Ar gael yn: [http://europa.eu/youreurope/citizens/travel/passenger-rights/index\\_en.htm](http://europa.eu/youreurope/citizens/travel/passenger-rights/index_en.htm)





## Pennod 4 – casgliad

4.1 Pe byddai'r DU yn pleidleisio i adael yr UE, byddai'r Llywodraeth yn gwneud popeth yn ei gallu i sicrhau canlyniad cadarnhaol i'r wlad. Byddem yn ceisio sicrhau cytundeb gan y 27 o Aelod-wladwriaethau a oedd yn aros yn yr UE i gael y mynediad gorau ar gyfer cwmnïau a defnyddwyr y DU i'r Farchnad Sengl. Byddem yn cychwyn y broses araf o gytuno ar Gytundebau Masnach Rydd â gwledydd y tu allan i'r UE. Byddem yn ceisio cadw'r elfennau hynny o gydweithredu ar faterion heblaw masnach sy'n hyrwyddo ein buddiannau cenedlaethol, yn cynyddu pŵer y DU yn y byd ac yn rhoi mwy o allu i ni gael ein ffordd. A byddem yn defnyddio'r holl ddulliau a oedd ar gael i ni i sicrhau canlyniad i'r fath.

4.2 Er hynny, byddai'n anodd dod yn agos i sicrhau'r un lefel o fynediad a dylanwad ag sydd gan y DU ar hyn o bryd o ganlyniad i'n statws arbennig yn yr UE. Yn ogystal â'r pwysau a fyddai ar y DU o dan y broses Erthygl 50 i ddod i gytundeb yn gyflym, byddai'r dasg o ddod i gytundeb ar faterion o bob math â 27 o Aelod-wladwriaethau, a phob un yn ceisio ymladd dros ei buddiannau ei hun, yn debygol o fod yn ymestynnol ac o gynnwys cyfaddawdu anodd. Pe byddem yn methu â dod i gytundeb o fewn dwy flynedd o dan y broses Erthygl 50, byddai ein haelodaeth o'r UE – gan gynnwys ein mynediad i'r Farchnad Sengl a thrwy Gytundebau Masnach Rydd i 53 o farchnadoedd o gwmpas y byd – yn dod i ben yn awtomatig, oni bai fod pob un o'r 27 o Aelod-wladwriaethau eraill yn cytuno i'w hymestyn.

4.3 Felly byddai'n rhaid i'r DU wneud penderfyniadau anodd am ei blaenoriaethau. Byddai pob opsiwn a oedd ar gael yn galw am gydbwyso'r angen am sicrhau mynediad i Farchnad Sengl yr UE, derbyn costau a rhwymedigaethau a chadw dylanwad y DU.

4.4 Yn benodol, byddai angen i ni benderfynu a oeddem am gael mynediad llawn ar gyfer cwmnïau'r DU i Farchnad Sengl yr UE ar gyfer masnach rydd. Os oeddem, yna byddai'n rhaid i ni dderbyn rheolau'r Farchnad Sengl. Ond o fod y tu allan i'r UE, ni fyddai gennym bleidlais ar y rheolau hynny. Ac mae bron yn sicr y byddai mynediad llawn i'r Farchnad Sengl yn golygu bod rhaid i ni dderbyn llawer o'r costau a rhwymedigaethau sydd ynglŷn â bod yn aelod o'r UE, gan gynnwys hawl pobl i symud yn rhydd a chyfraniadau sylweddol i gyllidebau a rhaglenni'r UE (ond heb yr ad-daliad i'r DU, y byddem yn ei golli wrth adael yr UE).

4.5 Fel arall, gallem geisio cael perthynas wedi'i seilio ar Gytundeb Masnach Rydd. Mae hyd yn oed y mwyaf datblygedig o'r cytundebau hyn yn cynnig llai o fynediad i'r Farchnad Sengl. Yn benodol, maent yn cynnig llai o fynediad ar gyfer gwasanaethau, sydd bron yn 80 y cant o economi'r DU.

4.6 Os nad oeddem wedi gwneud cytundeb o ryw fath, byddai ein perthynas wedi'i seilio ar aelodaeth o Sefydliad Masnach y Byd yn unig. Hyn fyddai'r toriad mwyaf pendant oddi

wrth yr UE. Byddai'n golygu nad oeddem yn gorfod dilyn rheolau'r UE wrth allforio i wledydd y tu allan i'r UE (er y byddai'n ofynnol o hyd i gwmnïau'r DU gydymffurfio â rheolau Marchnad Sengl yr UE wrth allforio i'r UE, gan gynnwys y rheini ar ddiogelwch a'r amgylchedd). Ni fyddem yn gorfod derbyn hawl pobl i symud yn rhydd ac ni fyddai'n rhaid i ni gyfrannu i gyllidebau a rhaglenni'r UE. Ond byddai pris mawr i'w dalu am hyn o safbwynt busnesau a swyddi yn y DU.

**4.7** Byddai pob dewis yn lle aelodaeth yn golygu bod y DU yn colli ei phleidlais a'i feto ar gynnwys cyfreithiau'r UE. A beth bynnag fydd ein dewisiadau, yr UE fydd marchnad fwyaf y DU ar gyfer allforion o hyd (ar hyn o bryd, mae allforion y DU i'r UE yn werth mwy na dwywaith a hanner gwerth allforion y DU i UDA – ein marchnad dramor ail fwyaf). Felly bydd cyfreithiau'r UE o'r pwys mwyaf o hyd i gwmnïau'r DU. Ar hyn o bryd, mae gan y DU ran bwysig mewn penderfynu ar y rheolau hyn. O dan reolau sy'n pwysoli pleidleisiau ar sail maint poblogaeth, y DU, Ffrainc a'r Almaen sydd â'r cyfrannau mwyaf o bleidleisiau ar gyfer penderfynu ar ddeddfwriaeth. Gallwn roi feto ar benderfyniadau ar faterion allweddol fel treth neu gyllideb yr UE, pan nad yw'r rhain yn gyson â'n buddiannau cenedlaethol. O dan bob opsiwn arall, byddai'n rhaid i ni ildio ein pleidlais ac ni fyddai gennym hawl i roi feto.

**4.8** Byddai'r effaith o golli'r dylanwad hwn yn amlwg i gwmnïau'r DU. Wrth i'r UE barhau i ddatblygu ei reolau hebom ni, ni fyddem yn gallu diogelu a hyrwyddo buddiannau cwmnïau'r DU fel yr ydym yn gallu gwneud nawr. Yn benodol, ni allem atal camau i greu rhwystrau ar wahân i dariffau a fyddai'n achosi problemau penodol i sector gwasanaethau'r DU, ac i weithgynhyrchwyr y DU a oedd yn dibynnu ar gadwynau cyflenwi sy'n croesi ffiniau. Yn ogystal â hyn, y tu allan i'r UE, byddai cwmnïau'r DU yn colli'r amddiffyniad cyfreithiol cadarn sy'n sicrhau tegwch ar gyfer cystadlu, a'r hawl i gael iawndall.


**4.9** Er gwaethaf y manteision a fyddai gennym wrth negodi, ni fyddai'r DU yn rhydd i ddewis ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol. Byddai pob model heblaw'r trefniant sylfaenol o dan Sefydliad Masnach y Byd yn dibynnu ar gytundeb â'r Aelod-wladwriaethau eraill a byddai'n rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan Senedd Ewrop. Byddai rhai o'r modelau a ddisgrifiwyd yn y papur hwn yn gallu galw am gytundeb unfrydol gan y 27 o Aelod-wladwriaethau sy'n aros ac am eu cadarnhau gan eu seneddau cenedlaethol. Byddai'n debygol o fod yn anodd cael cytundeb ar gynifer o faterion gwahanol gan nifer mawr o bartneriaid negodi, a phob un yn ceisio diogelu ei fuddiannau ei hun, a gallai olygu cyfaddawdu ar bethau anodd eu derbyn.

**4.10** Nid mater syml a chyflym fyddai sefydlu perthynas newydd. Mae'r modelau a ddisgrifiwyd yn y papur hwn yn ganlyniad i negodiadau cymhleth, a gynhaliwyd dros nifer o flynyddoedd. Mae enw drwg gan negodiadau masnach rhyngwladol am fod yn araf a chymhleth. Po fwyaf cynhwysfawr fydd y cytundeb, hiraf fydd y negodiadau gan mwyaf. Byddai negodi i adael yr UE, ffurfio perthynas newydd rhwng y DU a'r UE, ac wedyn gwneud set newydd o gytundebau masnach â thrydedd wledydd, ymysg y negodiadau mwyaf cymhleth. Dylem ddisgwyl i'r broses hon gymryd cymaint â degawd neu fwy i'w chwblhau.


**4.11** Byddai pris i'w dalu hefyd o ran cydweithredu mewn meysydd heblaw'r economi. O gofio'r digwyddiadau diweddar mewn rhannau o'r byd sy'n cydffinio â'r UE, nid hon yw'r adeg i amharu ar drefniadau sy'n cyfrannu at ein diogelwch. O dan unrhyw un o'r modelau eraill, nid oes sicrwydd y gallem ailafael ym mhob agwedd ar y mesurau presennol ar gyfer cydweithredu rhwng heddluoedd a gwasanaethau diogelwch, sy'n caniatáu i asiantaethau sy'n gorfodi'r gyfraith yn y DU gydweithio â'u cymheiriaid yn yr UE. Ni fyddai cytundebau dwyochrog y tu allan i'r UE yn gallu sicrhau'r un cyrhaeddiad a dylanwad ag sydd gennym ar hyn o bryd yn y meysydd hyn, neu ein hawl i ddewis pa fesurau rydym am gymryd rhan

ynddynt. Ni fyddem yn gallu sicrhau bod camau gweithredu gan yr UE yn ategu ein nodau ar bolisi tramor a diogelwch, na defnyddio pwysau economaidd yr UE i osod sancsiynau ar wledydd fel Rwsia ac Iran. Nid yw'r un o'r gwledydd y tu allan i'r UE a ddisgrifiwyd yn y papur hwn yn gallu sbarduno neu ddylanwadu ar gamau gweithredu gan yr UE fel y gall y DU wneud heddiw.

**4.12** Pa bynnag ddewis yn lle aelodaeth y byddai'r DU yn ei geisio ar ôl penderfynu gadael yr UE, byddem yn colli dylanwad dros benderfyniadau gan yr UE a oedd yn effeithio'n uniongyrchol arnom o hyd. Bydd angen i ni bwysu a mesur y manteision o gael mynediad i farchnad yr UE a marchnadoedd rhwngwladol yn erbyn y rhwymedigaethau a'r costau a geir yn gyfnewid am hynny. Asesiad Llywodraeth y DU yw nad oes yr un model presennol y tu allan i'r UE sy'n dod yn agos at roi'r un cydbwysedd o fanteision a dylanwad ag yr ydym yn ei gael drwy statws arbennig presennol y DU o fewn yr UE.




# Atodiad – Cytundebau Masnach Rydd yr UE



## ***Y marchnadoedd y mae'r UE wedi gwneud Cytundebau Masnach Rydd â***

**nhw:** Mecsico, Chile, Periw, Morocco, Algeria, Tiwnisia, yr Aifft, Gwlad yr Iorddonen, Israel, y Diriogaeth Balesteinaidd a Feddiannwyd, Libanus, Syria, Cyn-Weriniaeth Iwgoslafaidd Macedonia, Albania, Serbia, Montenegro, Bosnia a Herzegovina, y Swistir, Korea, Antigwa, Barbwda, Belize, Bahamas, Barbados, Dominica, y Weriniaeth Ddominicaidd, Grenada, Guyana, Haiti, Jamaica, St. Kitts a Nevis, St. Lucia, St. Vincent a'r Grenadines, Suriname, Trinidad a Thobago, Colombia, Honduras, Nicaragwa, Panama, Guatemala, Papua New Guinea, De Affrica, Madagasgar, Mauritius, Seychelles, Zimbabwe, Costa Rica, El Salvador, Ffiji, Camerŵn, Georgia, Moldofa, Ukrain, Undeb Tollau'r UE (Andorra, Monaco, San Marino, Twrci), yr AEE (Norwy, Gwlad yr Iâ, Liechtenstein).





# Rhestr o dermau allweddol

| Term                                                                | Diffiniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
|---------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Ardal Deithio Gyffredin                                             | Ardal deithio sy'n cynnwys lwerddon a'r DU. Mae'n caniatáu i wladolion y ddwy wlad deithio a byw yn y ddwy wlad heb reolaethau ymfudo.                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| Ardal ddi-ffiniau Schengen                                          | Mae ardal ddi-ffiniau Schengen yn cynnwys y 26 o wledydd yn Ewrop (22 o aelod-wladwriaethau'r UE a phedair arall) sydd wedi dileu rheolaethau pasbort a phob math o reolaeth arall ar eu ffiniau cyffredin. Mae ganddi bolisi cyffredin ar fisâu hefyd.                                                                                                                                                                 |
| Confensiwn Lugano                                                   | Mae Confensiwn Lugano yn hwyluso camau i gydnabod a gorfodi dyfarniadau mewn achosion cyfraith sifil yng ngwledydd yr UE a CFRE.                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| Cyd-bwyllgor yr AEE                                                 | Un o sefydliadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), lle gwneir penderfyniadau drwy gonsensws i gynnwys deddfwriaeth yr UE yng Nghytundeb yr AEE.                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| Cyfiawnder a Materion Cartref                                       | Mae Cyfiawnder a Materion Cartref yn cyfeirio at gydweithredu yn yr UE ar loches a mewnfudo, materion barnwrol, amddiffyn sifil a'r frwydr yn erbyn troseddu difrifol a chylfndrefnol a therfysgaeth, yn ogystal ag ardal ddi-ffiniau Schengen. Mae'r DU wedi sicrhau set o esemptiadau sy'n golygu nad yw'n ofynnol iddi gymryd rhan mewn materion cyfiawnder a chartref, ond gall ddewis gwneud hynny os yw'n dymuno. |
| Cyngor yr Undeb Ewropeaidd (a elwir hefyd yn Gyngor y Gweinidogion) | Mae Cyngor yr UE yn cynnwys cynrychiolwyr llywodraethau Aelod-wladwriaethau'r UE. Hwn yw prif gorff penderfynu'r UE ac mae'n cytuno ar gyfreithiau'r UE, ar y cyd â Senedd Ewrop fel arfer.                                                                                                                                                                                                                             |
| Cymdeithas Fasnach Rydd Ewrop (CFRE)                                | Mae pedwar aelod yng Nghymdeithas Fasnach Rydd Ewrop (CFRE): y tair aelod-wladwriaeth yn yr AEE nad ydynt yn yr UE – Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein – ynghyd â'r Swistir. Mae ganddi hawl i wneud Cytundebau Masnach Rydd â gweddill y byd ar ran ei phedwar aelod.                                                                                                                                                 |

| Term                                        | Diffiniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
|---------------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Cymorth Gwladwriaethol                      | Cymorth Gwladwriaethol yw unrhyw fantais neu gymhorthdal a roddir gan awdurdodau cyhoeddus drwy adnoddau gwladwriaethol ar sail ddewisol i unrhyw sefydliadau a allai gamystumio cystadleuaeth a masnach yn yr UE. Mae'r diffiniad o gymorth gwladwriaethol yn eang iawn oherwydd gellir cael llawer math o 'fantais'.                                                                                                                                                                                         |
| Cytundeb Ankara                             | Y Cytundeb Cysylltu a lofnodwyd rhwng y Gymuned Ewropeaidd a Thwrci ym 1963, a'r Protocol Ychwanegol a atodwyd ym 1970. Maent yn nodi'r amcanion sylfaenol a gytunwyd ar gyfer cysylltiadau rhwng yr UE a Thwrci, fel y bwriad i gryfhau cysylltiadau masnach ac economaidd a sefydlu Undeb Tollau.                                                                                                                                                                                                            |
| Cytundebau Sefydlogi a Chysylltu            | Mae Cytundebau Sefydlogi a Chysylltu yn gytundebau dwyochrog rhwng yr UE a gwledydd y Balcanau Gorllewinol i hyrwyddo heddwch rhanbarthol a sefydlogrwydd ac i'w derbyn i'r UE yn y pen draw. Yn ogystal â sefydlu Ardal Fasnach Rydd gyda'r UE, mae partïon y cytundebau'n addo gweithio tuag at amcanion gwleidyddol ac economaidd cyffredin a hybu cydweithredu rhanbarthol.                                                                                                                                |
| Cytundeb Masnach Rydd                       | Mae Cytundeb Masnach Rydd yn gytuniad rhwng dwy neu ragor o wledydd neu flociau masnachu sy'n lleihau, ond nid dileu, rhwystrau rhag masnach a buddsoddi. Mae rheolau Sefydliad Masnach y Byd yn caniatáu i'w aelod-wladwriaethau lofnodi Cytundebau Masnach Rydd gan roi mynediad ffafraethol i farchnadoedd ei gilydd, o dan amodau penodol. Fel arfer, bydd Cytundebau Masnach Rydd yn cynnwys cytundebau i leihau tariffau a chyfyngiadau eraill ar fasnach mewn nwyddau ac, i lai o raddau, gwasanaethau. |
| Cytundeb Masnach Rydd rhwng yr UE a Chanada | Mae'r Cytundeb Cynhwysfawr ar yr Economi a Masnach yn gytundeb masnach a negodwyd rhwng yr UE a Chanada. Ar ôl ei weithredu, bydd yn dileu tollau, yn terfynu cyfyngiadau ar fynediad at gontractau cyhoeddus, yn agor marchnadoedd gwasanaethau, ac yn helpu i atal copïo dyfeisiau newydd a chynhyrchion traddodiadol yr UE yn anghyfreithlon.                                                                                                                                                               |
| Diffyg masnach                              | Ceir diffyg masnach pan fydd gwlad yn mewnfario mwy o nwyddau a gwasanaethau nag y mae'n eu hallforio. Mae'r diffyg yn hafal i werth y nwyddau a gwasanaethau a fewnforiwyd ar ôl tynnu gwerth y nwyddau a gwasanaethau a allforiwyd.                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| Eurojust                                    | Mae Eurojust yn un o asiantaethau'r UE sy'n delio â chydweithredu barnwrol ar faterion troseddol.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| Europol                                     | Mae Europol yn un o asiantaethau'r UE sy'n helpu asiantaethau gorfodi'r gyfraith ei Haelod-wladwriaethau i fynd i'r afael â throseddu ar draws ffiniau. Mae'n cyflawni mwy na 18,000 o ymchwiliadau ar draws ffiniau bob blwyddyn i fynd i'r afael â bygythiadau i ddiogelwch fel terfysgaeth, masnachu rhyngwladol mewn cyffuriau a gwyngalchu arian, twyll cyfundrefnol, ffugio a masnachu mewn pobl.                                                                                                        |
| Frontex                                     | Frontex yw Asiantaeth Ffiniau'r UE, sy'n rheoli cydweithredu rhwng gwarchodwyr ffiniau cenedlaethol i ddiogelu ffiniau allanol yr UE.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |

| Term                                | Diffiniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
|-------------------------------------|----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| G20                                 | Mae'r Grŵp o Ugain (G20) yn fforwm rhyngwladol ar gyfer cydweithredu a phenderfynu ar faterion economaidd. Mae'n cynnwys 19 o brif economïau'r byd, sy'n cynnwys y DU, ynghyd â'r Undeb Ewropeaidd.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                        |
| Llys CFRE                           | Mae Llys CFRE (Cymdeithas Fasnach Rydd Ewrop) yn gorff barnwrol goruwchgenedlaethol sy'n delio ag achosion sy'n ymwneud â dehongli a chymhwyso Cytundeb yr AEE. Yn ei hanfod, mae'n cyfateb i Lys Cyfiawnder Ewrop ar gyfer y gwledydd yn CFRE sydd hefyd yn aelodau o'r AEE (Norwy, Liechtenstein a Gwlad yr Iâ).                                                                                                                                                                                                         |
| Llys Cyfiawnder Ewrop               | Mae Llys Cyfiawnder Ewrop yn llys goruwchgenedlaethol sydd wedi'i leoli yn Lwcsembwrg ac sy'n cynnwys un barnwr o bob un o Aelod-wladwriaethau'r UE. Mae'r Llys yn delio ag achosion sy'n ymwneud â dehongli a chymhwyso Cytuniadau'r UE.                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| Marchnad Sengl                      | Mae marchnad sengl yn ardal fasnach gyffredin sy'n mynd gam ymhellach na'r Cytundebau Masnach Rydd mwyaf manwl a chynhwysfawr. Mae'n ceisio dileu'r holl rwystrau rheoliadol rhag symud cyfalaf, pobl, nwyddau a gwasanaethau'n rhydd. Mae'n hybu cystadleuaeth a masnach, yn gwella effeithlonrwydd economaidd ac yn helpu i ostwng prisiau. Marchnad Sengl yr UE yw'r fwyaf yn y byd.                                                                                                                                    |
| Mynediad ffafraethol i farchnadoedd | Bydd gwlad neu floc masnachu'n rhoi mynediad ffafraethol i'w farchnad i un arall pan fydd yn rhoi gwell telerau masnach iddo na'r hyn sy'n arferol, er enghraifft, drwy leihau tariffau neu roi'r hawl i gynnig am dendrau cyhoeddus. Mae Sefydliad Masnach y Byd yn gosod nifer o reolau ynghylch sut y gall gwledydd a blociau roi mynediad ffafraethol i'w gilydd. Rhwng gwledydd datblygedig bydd hyn yn cael ei roi fel arfer drwy Gytundebau Masnach Rydd lle bydd y ddwy ochr yn cytuno i leihau rhwystrau masnach. |
| Pasbortio                           | Mae pasbortio'n rhoi'r hawl i gwmni gwasanaethau ariannol a awdurdodwyd mewn gwladwriaeth yn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) i gyflawni gweithgareddau a ganiateir mewn unrhyw wladwriaeth arall yn yr AEE un ai drwy arfer yr hawl i ymsefydlu (h.y. sefydlu cangen a/neu asiantau), neu ddarparu gwasanaethau ar draws ffiniau. Rhoddir yr hawliau hyn ar yr amod bod gofynion y gyfarwydddeb Marchnad Sengl berthnasol wedi'u bodloni.                                                                             |
| Penderfyniadau Prüm                 | Penderfyniadau Prüm yw penderfyniadau gan Gyngor yr UE sy'n ymgorffori'r darpariaethau mewn Confensiwn a wnaed eisoes rhwng nifer o wladwriaethau'r UE yng nghyfraith yr UE. Maent yn darparu mecanweithiau ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng Aelod-wladwriaethau ar DNA, olion bysedd a chofrestru cerbydau er mwyn atal ac ymchwilio i droseddu ar draws ffiniau a therfysgaeth. Mae'r DU wedi penderfynu gwneud cais am ailymuno â'r gyfundrefn hon yn ddiweddar.                                                      |

| Term                                    | Diffiniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                     |
|-----------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig    | Pleidleisio drwy Fwyafrif Cymwysedig yw'r prif ddull o ddod i benderfyniadau yng Nghyngor y Gweinidogion. Mae'n dyrannu pleidleisiau i'r gwahanol Aelod-wladwriaethau gan ddilyn fformiwla a gytunwyd, sydd wedi'i seilio'n rhannol ar faint poblogaeth. O dan reolau Cytuniad Lisbon, bydd penderfyniad neu gyfraith wedi'i basio drwy fwyafrif cymwysedig os bydd 55% o Aelod-wladwriaethau'n pleidleisio o blaid (yn ymarferol, mae hyn yn golygu 16 o 28) ac os yw'r Aelod-wladwriaethau sydd o blaid yn cynrychioli o leiaf 65% o holl boblogaeth yr UE. |
| Europol                                 | Europol is an EU agency that assists Member States' law enforcement agencies in tackling cross-border crime. It carries out over 18,000 cross-border investigations a year to tackle security threats such as terrorism, international drug trafficking and money laundering, organised fraud, counterfeiting and people smuggling.                                                                                                                                                                                                                           |
| Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)      | Y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yw polisi amaethyddol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n gweithredu system cymorth amaethyddol drwy daliadau incwm uniongyrchol i ffermwyr a phrisiau gwarantedig.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
| Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC)      | Mae'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (PPC) yn set o reolau a osodwyd gan yr UE ar gyfer rheoli fflydoedd pysgota Ewropeaidd a chadw stociau o bysgod.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
| Rheolau Tarddiad                        | Rheolau Tarddiad yw'r meini prawf sydd eu hangen i bennu o ba wlad y mae cynnyrch wedi dod. Maent yn bwysig am fod tollau a chyfyngiadau'n dibynnu'n aml ar ffynhonnell mewnforion. Gan fod cadwynau cyflenwi'r economi fyd-eang mor gymhleth, nid yw bob amser yn hawdd pennu hyn. Mae'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig yn gost i fusnesau.                                                                                                                                                                                                                |
| Rheoliad Dulyn                          | Set o feini prawf sydd wedi'i gosod ar gyfer pennu'r Aelod-wladwriaeth sy'n gyfrifol am asesu hawliad am loches yn Ewrop. O dan Reoliad Dulyn, rhaid gwneud yr hawliad am loches yn y wlad gyntaf yn yr UE a gyrhaeddir.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| Rhwystrau rhag masnachu heblaw tariffau | Mae'r rhain yn cynnwys cwtotâu, ardollau, embargos, sancsiynau a chyfyngiadau eraill. Fe'u defnyddir yn aml gan economïau mawr a datblygedig.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| Sefydliad Masnach y Byd                 | Mae Sefydliad Masnach y Byd yn sefydliad rhyngwladol sy'n rheoleiddio masnach ryngwladol rhwng cenhedloedd. Fe'i sefydlwyd ym 1995 i olynu'r Cytundeb Cyffredinol ar Dariffau a Masnach. Mae'r sefydliad yn galluogi'r aelod-wladwriaethau i gytuno ar reolau masnach, negodi cytundebau masnach, a datrys anghydfodau. Mae 162 o wledydd yn aelodau, gan gynnwys y DU.                                                                                                                                                                                       |
| Senedd Ewrop                            | Sefydlwyd Senedd Ewrop ym 1979 i gynrychioli barn dinasyddion yn uniongyrchol ym mhenderfyniadau'r UE. Mae'n rhannu cyfrifoldeb â'r Cyngor ar gyfer pasio cyfreithiau'r UE a chytuno ar gyllideb yr UE, er bod gan y Cyngor bwerau ehangach ar gyfer penderfynu. Mae'r Senedd yn cynnwys 751 o aelodau (ASEau) sy'n cael eu hethol yn uniongyrchol ym mhob un o'r 28 o Aelod-wladwriaethau ac yn gwasanaethu am gyfnod o bum mlynedd. Mae 73 o ASEau gan y DU.                                                                                                |

| Term                                  | Diffiniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |
|---------------------------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| System Wybodaeth Europol              | Mae System Wybodaeth Europol (EIS) yn gronfa ddata ganolog o wybodaeth a chudd-wybodaeth am droseddwyd sy'n cwmpasu'r meysydd sydd o fewn cylch gwaith Europol. Mae Europol a holl Aelod-wladwriaethau'r UE yn gallu defnyddio'r system hon i storio a chwilio am ddata ar droseddau rhyngwladol difrifol a therfysgaeth.                                                                                                                                                                                                                                           |
| System Wybodaeth Schengen II (SIS II) | Mae System Wybodaeth Schengen II (SIS II) yn gronfa ddata fawr ar gyfer rheoli ffiniau allanol a chydweithredu i orfodi'r gyfraith o fewn gwladwriaethau Schengen. Mae SIS II yn galluogi awdurdodau cymwys, fel yr heddlu a gwarchodwyr ffiniau, i fewnbynnu a gweld rhybuddion am gategorïau penodol o bersonau ac eitemau sydd ar goll neu y mae'r heddlu'n chwilio amdanynt. Bydd rhybudd ar SIS II yn cynnwys nid yn unig gwybodaeth am y person neu eitem benodol ond cyfarwyddiadau clir hefyd ynghylch beth i'w wneud ar ôl dod o hyd i'r person neu eitem. |
| Tariff Allanol Cyffredin              | Rhaid cyflwyno tariff allanol cyffredin pan fydd grŵp o wledydd yn ffurfio undeb tollau. Bydd yr un tollau, cwtâu mewnforio, ffafraethau neu rwystrau eraill rhag masnachu heblaw tariffau yn gymwys i'r holl nwyddau sy'n dod i mewn i'r ardal, i ba wlad bynnag yn yr ardal y maent yn dod.                                                                                                                                                                                                                                                                       |
| Tariffau                              | Mae tariff yn dreth neu doll sy'n cael ei gosod ar ddosbarth penodol o fewnforion neu allforion.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    |
| Undeb Bancio                          | Mae'r Undeb Bancio yn system goruchwyllo a datrys anghydfodau ar lefel yr UE ar gyfer y sector bancio yn Ardal yr Ewro, ac aelod-wladwriaethau sy'n cymryd rhan. Ei nod yw sicrhau bod banciau yn Ardal yr Ewro yn ddiogel a dibynadwy a bod banciau annichonadwy'n cael eu hadfer heb ddefnyddio arian y trethdalwyr gan effeithio i'r graddau lleiaf posibl ar yr economi real.                                                                                                                                                                                   |
| Undeb Marchnadoedd Cyfalaf            | Mae'r Undeb Marchnadoedd Cyfalaf yn gynllun gan y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer creu un farchnad wirioneddol ar gyfer cyfalaf yn Ewrop. Bydd yn sianelu cynnydd mewn cyfalaf i'r holl gwmnïau, gan gynnwys busnesau bach a chanolig, ac i brosiectau seilwaith.                                                                                                                                                                                                                                                                                                      |
| Undeb Tollau                          | Cytundeb rhwng dwy neu ragor o wledydd i ddileu rhwystrau tollau a lleihau neu ddileu tollau allanol ar y fasnach rhyngddynt. Fel arfer bydd undebau tollau'n gosod tariff allanol cyffredin ar fewnforion o wledydd nad ydynt yn aelodau.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |
| Y Cenhedloedd Unedig                  | Mae'r Cenhedloedd Unedig yn sefydliad rhyngwladol a ffurfiwyd ym 1945 i gynyddu cydweithrediad rhyngwladol a chynnal heddwch a diogelwch. Mae ganddo 193 o aelodau.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 |
| Y Comisiwn Ewropeaidd (y Comisiwn)    | Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gyfrifol am gynnig deddfwriaeth ddrafft, gweithredu penderfyniadau, sicrhau cydymffurfiaeth â Chytuniadau'r UE a rheoli busnes yr UE o ddydd i ddydd.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                  |
| Y Cyngor Ewropeaidd                   | Y Cyngor Ewropeaidd yw'r corff lle mae Penaeithiaid Gwladwriaeth neu Lywodraeth y 28 o Aelod-wladwriaethau'r UE, ynghyd â Llywydd penodedig a Llywydd y Comisiwn Ewropeaidd, yn gwneud penderfyniadau strategol ynghylch cyfeiriad yr UE.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           |

| Term                                                              | Diffiniad                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                               |
|-------------------------------------------------------------------|-----------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Y Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau               | Mae'r Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau yn un o gytuniadau Sefydliad Masnach y Byd a ddaeth i rym yn Ionawr 1995. Crëwyd y cytuniad er mwyn ymestyn y system masnachu amlochrog i gynnwys y sector gwasanaethau, yn yr un ffordd ag y mae'r Cytundeb Cyffredinol ar Dariffau a Masnach yn darparu system ar gyfer masnach mewn nwyddau. Mae holl aelodau Sefydliad Masnach y Byd yn bartïon i'r Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau. Mae egwyddor sylfaenol Sefydliad Masnach y Byd, sef y genedl fwyaf ffafriedig, yn gymwys i'r cytundeb hwn hefyd. Fodd bynnag, wrth ymuno â'r sefydliad, gall aelodau gyflwyno esemptiadau dros dro rhag y rheol hon. |
| Y Genedl Fwyaf Ffaffriedig                                        | O dan reolau Sefydliad Masnach y Byd, nid yw gwledydd fel arfer yn gallu gwahaniaethu rhwng partneriaid masnach sy'n aelod o'r sefydliad. Felly nid yw gwlad neu floc masnachu yn gallu gwneud trefniant ffaffraethol ar gyfer un arall (fel cyfradd dollau is ar gyfer un o'i gynhyrchion) heb wneud hynny ar gyfer holl aelodau'r sefydliad. Enw'r egwyddor hon yw triniaeth y Genedl Fwyaf Ffaffriedig.                                                                                                                                                                                                                                                                              |
| Y Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF)                                | Mae'r Gronfa Ariannol Ryngwladol (IMF) yn sefydliad rhyngwladol sy'n cynnwys 188 o wledydd. Ei hamcan yw meithrin cydweithredu ariannol byd-eang, sicrhau sefydlogrwydd ariannol, hwyluso masnach ryngwladol, hyrwyddo cyflogaeth uchel a thwf economaidd cynaliadwy, a lleihau tlodi o gwmpas y byd. Mae'r DU yn aelod.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                |
| Y Gymuned Economaidd Ewropeaidd (CEE) a'r Gymuned Ewropeaidd (CE) | Roedd y Gymuned Economaidd Ewropeaidd (CEE) yn sefydliad ar gyfer cydweithredu rhanbarthol ac yn rhagflaenydd i'r UE, fel un o'r Cymunedau Ewropeaidd. Fe'i sefydlwyd ym 1957 i hyrwyddo integreiddio economaidd rhwng ei haelod-wladwriaethau. Pan grëwyd yr Undeb Ewropeaidd (UE) o dan Gytuniad Maastricht ym 1993, cafodd y CEE ei hymgorffori a'i hailenwi'n Gymuned Ewropeaidd (CE). Yn 2009 darparodd Cytuniad Lisbon ar gyfer ymgorffori'r CE yn llawn yn yr Undeb Ewropeaidd.                                                                                                                                                                                                  |
| Yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE)                              | Mae'r AEE yn farchnad fewnol sy'n darparu ar gyfer symud personau, nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf yn ddirwystr. Mae'n cynnwys 31 o wledydd: y 28 o Aelod-wladwriaethau'r UE ynghyd â Norwy, Gwlad yr Iâ a Liechtenstein. Mae'n cael ei rheoli gan set o reolau cyffredin.                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |
| Yr Undeb Ewropeaidd (UE)                                          | Mae'r Undeb Ewropeaidd yn sefydliad rhyngwladol sy'n cynnwys 28 o wledydd Ewrop, gan gynnwys y DU. Mae'r UE â'i dechreuadau yng Nghymuned Glo a Dur Ewrop, a sefydlwyd gan chwe gwladwriaeth Ewropeaidd ar ôl yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, mae ei gylch gwaith wedi datblygu ac mae'n ehangach o lawer heddiw. Mae'r UE yn hwyluso cydweithredu rhwng ei Aelod-wladwriaethau ar amrywiaeth fawr o amcanion, yn amrywio o hwyluso masnach i ddiogelu'r amgylchedd, a diogelwch a datblygu mewn gwledydd tramor. Mae'r UE wedi creu'r Farchnad Sengl fwyaf yn y byd sy'n rhoi'r gallu i symud nwyddau, gwasanaethau, pobl a chyfalaf yn rhydd.                                          |



| Term                                                                  | Diffiniad                                                                                                                                                         |
|-----------------------------------------------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Y System<br>Wybodaeth<br>Cofnodion<br>Troseddol<br>Ewropeaidd (ECRIS) | System ar gyfer cyfnewid cofnodion troseddol a ddelir gan Aelod-wladwriaethau ag awdurdodau Aelod-wladwriaethau eraill.                                           |
| Y Warrant Arestio<br>Ewropeaidd                                       | Fframwaith cyfreithiol sy'n hwyluso estraddodi unigolion rhwng Aelod-wladwriaethau'r UE er mwyn eu herlyn neu i gyflawni dedfryd o garchar am gollfarn bresennol. |





Llywodraeth EM

ISBN 978-1-4741-2943-5



9 781474 129435